# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhagfyr 2013 | Rhif 439 | 50c

# Nadolig Llawen i Bawb




**Oddi wrth rai o blant Ysgol Sul Bethlehem, Talybont (Ben, Caleb, Elliw, Keira, Aimee a Joseph)**

## Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

Yng Nghapel Jerusalem

**Nos Sul, 22 Rhagfyr**
**7.00 pm**
Dewch i ddathlu'r ŵyl yng nghwmni

**Côr y Dyffryn**
**Côr Ysgol Dyffryn Ogwen**
ac eraill
Gwneir casgliad at Drychineb y Philippinau

**Croeso Cynnes i Bawb**

## Anrhydeddu John Huw Evans



Llongyfarchiadau i John Huw Evans, Rhiwlas ar dderbyn Tlws Coffa Eirug Wyn gan gylchgrawn Y Faner Newydd. Cyflwynir y tlws i unigolion sy'n gwneud cyfraniad neilltuol, a hynny'n wirfoddol, i gynnal ein hiaith a'n diwylliant. Ysgrifennwyd portread o John yn y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn gan Iona Jones, cymdoges iddo ac un sy'n cydweithio ag o yn y pentref. Gwyddom y bydd darllenwyr Llais Ogwan yn hynod falch bod John, sy'n un o brif gymwynaswyr ein papur bro, wedi ei anrhydeddu yn y modd hwn. Yn y llun: Ieuan Wyn (Cyd-olygydd Y Faner Newydd), John Huw Evans ac Iona Jones.

**Y Gwir Nadolig**

Yn ei lety mae'r tlotaf, a heddiw'n
Rhoi gwadd i'r Amlycaf
Drwy eto fynnu'r drytaf
Mewn oes lem i'r hon mae'n slaf.

Un gwag yw bwrdd y gegin i gofio
Am Gyfaill sy'n Frenin,
A'r oes grand sy ar y sgrin
I'n plant a gwariant gwerin.

**Dafydd Morris**

**Nadolig 2013**

Daw'n nos, a ni'n dynesu - at y crud
at y Crist a'i deulu;
Yn alawon llon y llu
fel un, down i'w foliannu

**Dilwyn Owen**

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan

Yr anrheg Nadolig ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol

neu ffoniwch

Dafydd Fôn Williams 01248 601583

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL


**Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901 913901
dewision@hotmail.co.uk

**Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

**Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

**Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard** ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

### SWYDDOGION

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co,uk

**Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Neville Hughes.

Golygydd mis Ionawr fydd Derfel Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600965. hylaw @btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 01 Ionawr, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 16 Ionawr, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**


**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**


## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10 | Mrs E V Amos, Glanogwen, Bethesda |
| £10 | Mrs Donna Coleby, Preston |
| £ 5 | Mr J Gwynfor Davies, Widnes |
| £20 | Mr Gwynfryn Davies, Caernarfon |
| £10 | Mrs Mair Jones, Windsor |
| £10 | Mrs Joan Jones, Cemaes, Ynys Môn |
| £30 | Mrs Mair Owen, Caerdydd er cof am ei gŵr, Gwyndaf Owen |
| £20 | Mrs Nia Philliops, Southport er cof am ei rhieni John Glyn a Phyllis Hughes |
| £5 | Mr D W Thomas, Barrow in Furness |
| £5 | Mr Emyr Wyn Williams, Porthaethwy, Ynys Môn |
| £20 | Er cof annwyl am Glenys Evans, Ceunant a Mr William John Evans, (Ffordd Llanllechid gynt) - un o helpars Siôn Corn. Gan Gwil Rees, Karen, Tom a'r teulu. |
| £25 | Mr Bryn Roberts, Caerdydd, a Mrs Jois Snelson, Dinbych, er cof am eu rhieni, Caeron a Nancy Roberts, Tregarth. |
| £6 | Deri a Megan Tomos, Sychnant, Llanllechid. |
| £20 | Er cof am Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas, oddi wrth Selwyn, Alwena, Nerys a Medwyn. |
| £200 | Cyngor Cymuned Llandygái |
| £10 | Er cof am Raymond (gynt o 3 Rhes Douglas, Bethesda) a fu farw 24 Rhagfyr 2011, oddi wrth Barbara, Wayne, Mark a Cara. |
| £10 | Bronwen Tan y Gadlas, Braichmelyn. |
| £20 | Atgofion hapus iawn am ein tad y diweddar Mr Huw Owen (gynt o 14 Gernant, Braichmelyn) a fu farw ar ddydd Nadolig 1971 yn 64 mlwydd oed. Oddi wrth Ogwena a Goronwy Wyn Owen. |
| £10 | Er cof am fy mab, Robert, a fu farw ar 27 Rhagfyr 2003 yn 32 mlwydd oed. Hefyd fy mrawd, Trevor, a fu farw ar 16 Rhagfyr 1965 yn 23 mlwydd oed. "Mi glywaf dyner lais..." Oddi wrth David, Rhes Elfed, Bethesda. |
| £10 | Er cof am Mr a Mrs Brynley Jones, 2 Rhes Coetmor, Bethesda, gynt. |

**Diolch yn Fawr**

### Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Oherwydd costau cynyddol, ofnir y bydd yn rhaid codi prisiau anfon Llais Ogwan drwy'r post o fis Ionawr 2014 ymlaen.

**Y gost fydd -**
Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Mis Rhagfyr

22 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem, Bethesda am 7.00

### Mis Ionawr 2014

02 Sefydliad y Merched Carneddi. Dafydd Morris. Cefnfaes am 7.00

06 Merched y Wawr Tregarth. Huw Davies, Antur Waunfawr. Festri Shiloh am 7.00

11 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

13 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Wyn Bowen Harris. Festri Jerusalem am 7.00

14 Te Bach. Eglwys y Gelli am 2.00

16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

22 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

25 Bore Coffi Cylch Meithrin. Cefnfaes. 10.00 -12.00

28 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

29 Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

30 Merched y Wawr Bethesda. "Llysiau Llesol Nain". Cefnfaes am 7.00

### Mis Chwefror

03 Merched y Wawr Tregarth. "Crwydro." Angharad Tomos. Festri Shiloh am 7.45.

08 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

15 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

### Mis Mawrth

01 Bore Coffi Plaid Cymru. Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00


**Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan**

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
**post@tasg.co.uk**

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669


## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Mis Rhagfyr**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (111) Gwen Davies, Tanysgafell Isaf, Bethesda |
| £20.00 | (16) Margaret Jones, 8 Pantglas, Bethesda |
| £10.00 | (191) A Ray Davies, 9 Heol Ifor, Caerdydd |
| £5.00 | (98) Godfrey Northam, Llwynbedw, Rachub |

**Gwobrau Blynyddol Arbennig**

| | |
|---|---|
| £100.00 | (111) Elsie Evans, 6 Garneddwen, Bethesda |
| £75.00 | (171) Gareth Lewis, 2 Pantglas, Bethesda |
| £50.00 | (9) Maldwyn Hughes, Cefn Dinas, Minffordd |
| £25.00 | (55) Enid Lloyd Davies, Bryn Derwas, Talybont. |

## Yr Ymgyrch i Warchod Coetmor

# Beth ydi Anghenion Tai ein Dyffryn?

Yn ddiweddar, wrth drafod y cais cynllunio i godi 69 o dai yng Nghoetmor, mae dau gwestiwn yn arbennig wedi cael ei godi gan bobl leol.

Y cwestiwn cyntaf ydi: onid oes angen tai fforddiadwy ym Methesda a'r cylch, ac oni ddylid croesawu'r ffaith fod 20 o dai fforddiadwy yn rhan o'r cynllun?

Mae hi'n wir bod angen tai fforddiadwy – tai newydd sydd â'u prisiau o fewn cyrraedd pobl – ond y ffaith ydy bod 49 o dai eraill yn y cynllun a fydd yn gymharol ddrud, ac felly'n anfforddiadwy i lawer o bobl leol. Fe ellir gofyn y cwestiwn: oni ddylai pob tŷ newydd fod yn fforddiadwy i bobl leol? A pha mor fforddiadwy fydd yr 20, beth bynnag? A ydi Gwasanaeth Cynllunio a Phwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd yn gwybod beth fydd eu pris nhw? Hefyd, dydi dweud y byddai 20 o'r tai ar y stad yn rhai fforddiadwy ddim yn golygu y bydden nhw'n gyfyngedig i bobl leol yn unig. Dydi o ddim yn golygu o reidrwydd mai pobl leol fyddai'n eu prynu. Dydi 'lleol' ddim o reidrwydd yn golygu'r gymuned leol. Gall olygu'r tu allan i'r gymuned leol.

Efallai mai cynorthwyo pobl ar incwm isel oedd y bwriad cychwynnol efo darparu tai fforddiadwy, ond a oes yna beryg eu bod yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau codi stadau cymharol fawr? Mae angen ymchwilio'n drylwyr i hyn, rhag ofn bod gorddarparu tir a gorddatblygu yn cael ei gyfiawnhau trwy gynnwys canran o dai fforddiadwy mewn datblygiadau sy'n amlwg yn rhy fawr i gymunedau lleol.

Y cwestiwn pwysicaf ydi beth yn union ydy'r anghenion tai yn lleol? Pwy sydd wedi gwneud arolwg o'r angen am dai newydd ym Methesda a'r cylch? Neb. Mae Cyngor Gwynedd wedi cydnabod hynny mewn llythyr atom fel pwyllgor, ac wedi dweud nad ydy hi'n fwriad gan y cyngor i wneud hynny yn y dyfodol chwaith. Pwysleisiwn eto y dylid cynnal arolwg o anghenion tai Dyffryn Ogwen. Heb wybodaeth gyflawn ynghylch y sefyllfa dai yn yr ardal, dydi hi ddim yn bosib cynllunio'n gytbwys a chynaliadwy. Rhaid gwybod pa fathau o dai sydd eu hangen, a heb dystiolaeth o'r sefyllfa leol, sut mae modd rhoi caniatâd i'r cais cynllunio i godi stad 69 o dai yng Nghoetmor?

Cwestiwn arall sydd wedi ei godi ydi: Oni fyddai codi stad 69 o dai yn gyfle i gwmnïau adeiladu a chrefftwyr unigol lleol gael gwaith?
Y farn rydym wedi ei derbyn ydi bod y gwaith o adeiladu stadau cymharol fawr yn cael ei roi i gwmnïau adeiladu mawr, ac mai cyfyngedig iawn ydi'r cyfleoedd i gwmnïau adeiladu a chrefftwyr unigol lleol. Y rheswm dros hyn ydi bod cwmnïau adeiladu mawr efo'r profiad a'r strwythurau i ymgymryd â chontractau o'r fath, ac yn tueddu i is-gontractio gwahanol agweddau ar ddatblygiadau o'r fath i gwmnïau y maen nhw ganddyn nhw gysylltiadau'n barod ac wedi cydweithio efo nhw yn y gorffennol.

**Pwyllgor Diogelu Coetmor**

**COFIWCH** (os nad ydych wedi gwneud hyd yma) anfon llythyr i wrthwynebu'r cais cynllunio i godi stad 69 o dai yng Nghoetmor, Bethesda. Gellwch anfon llythyr copi caled at Glyn Llewelyn Gruffudd, Uwch Swyddog Cynllunio, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA, neu lythyr e-bost ato i: cynllunio@gwynedd.gov.uk

Dyma batrwm ar eich cyfer, os dymunwch ei ddefnyddio:

Annwyl Glyn Llewelyn Gruffudd,

**Cais Cynllunio C13/0412/13/AM**
**(Stad 69 o dai ar dir ger Maes Coetmor, Bethesda)**

Dymunaf ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r cais cynllunio uchod oherwydd nid yw nifer y tai, sef 69, yn seiliedig ar arolwg lleol o anghenion tai, a byddai'n debygol o wanychu sefyllfa'r Gymraeg yn Nyffryn Ogwen. Gofynnaf i Gyngor Gwynedd gomisiynu asesiad ardrawiad iaith o'r datblygiad arfaethedig.

Yn gywir,

## *Annwyl Olygydd*

**Ysgol Gymraeg Aberystwyth,**
**Rhodfa Plascrug,**
**Aberystwyth,**
**SY23 1HL**

**Annwyl Ddarllenwyr,**
Fe fydd Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed ar fis Medi'r 25ain, 2014 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi llyfr i nodi'r garreg filltir bwysig hon.

I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu darllenwyr o'ch plith a fu yn yr ysgol i anfon eu hatgofion, eu storïau a'u lluniau atom.

Fe allwch anfon eich cyfraniadau trwy'r post i'r cyfeiriad uchod, neu drwy e-bost at y pennaeth Clive Williams i'r cyfeiriad - swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
neu
at olygydd y llyfr - meleriwynjames@gmail.co.uk

Fe hoffwn dderbyn y cyfraniadau erbyn mis Mawrth y 31ain, 2014.

**Yn gywir,**

**Clive Williams a**
**Meleri Wyn James**

**Annwyl Olygydd**

Rwi'n ceisio dod o hyd i fanylion am feddygon o Gymru a fu ynghlwm a'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Os gwyddoch am hanes rhywun, byddwn yn hynod ddiolchgar i glywed oddi wrthych.

Medrwch gysylltu a mi yn BMA Cymru, 5ed llawr, 2 Pentir Caspian, Ffordd Caspian, Caerdydd CF10 4DQ. Ebost: jjenkins@bma.org.uk neu ffonio 02920 474646

Diolch yn fawr iawn

**John Jenkins**
**Uwch Swyddog Materion Cyhoeddus**
**BMA Cymru**

**Red Lion, Llanllechid**
**Annwyl bawb,**
Ni fyddwn fel teulu yn anfon cardiau Nadolig eleni ac hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cyfeillion a chymdogion. 'Rydym wedi penderfynu rhoi cyfraniad at Gronfa Apel Cofeb y Cymry yn Fflandrys. Gobeithir y bydd y gofeb yn cael ei gosod yn ystod yr Haf nesaf i gyd fynd a chanmlwyddiant cychwyn y Rhyfel Byd Gyntaf. Mae cyfanswm ar hyn o bryd yn sefyll ar £70,000 ac mae'r pwyllgor am ddiolch i bawb yn Nyffryn Ogwen sydd wedi cyfrannu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a ni yn y Red Lion.

**Alwyn a Glena Bevan**

**Craigytan**
**Llanuwchllyn**
**Y Bala**
**LL23 7TA**
**craigytan@btinternet.com**

**Cymdeithas Brodwaith Cymru**

Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod y Gymdeithas hon yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg bob blwyddyn. Eleni yw'r wythfed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon. Enillwyd hi yn y saith mlynedd ddiwethaf gan fyfyrwyr dawnus, a phleser oedd arddangos eu gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Rydym wedi canfod mai'r ffordd orau i'r Gymdeithas ddenu ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth o bob rhan o Gymru yw trwy gael cyhoeddusrwydd yn y papurau bro.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Nesta Jones, Craigytan, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TA craigytan@btinternet.com dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2014.

**Gyda diolch.**
**Yn gywir**
**Nesta Jones**

# Bethesda

**Llên Ogwen,**
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

**Siop Kathy**
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ **601902**

**Cyfarchion Nadolig**
Dymuna Thomas a Heddwen Jones, Rhos-y-Coed, anfon cyfarfchion yr ŵyl a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cyfeillion a chymdogion (gan na fyddant yn anfon cardiau eleni).

**Gair o Ddiolch**
Mae Nicola Williams a'r teulu, Gwêl-y-Nant, yn dymuno diolch yn fawr iawn i Auntie Norma, Sulwen ac Ann Fôn, ac i bawb am eu cefnogaeth i'r Bore Coffi dydd Sadwrn, 9 Tachwedd. Mae'r elw o dros £300 yn mynd tuag at Hafan Menai.

**Pen-blwydd arbennig**
Dathlodd sawl un ben-blwydd arbennig ac rydym yn anfon cyfarchion a phob dymuniad da atynt:
Mrs Carys Roberts, Hen Aelwyd; 22 Tachwedd.
Mr Emlyn Evans, Rhos-y-Nant; 4 Rhagfyr.
Mrs Megan Phillips, Rhes Gordon; 11 Rhagfyr.

**Ysbyty**
Bu Mrs Mair Thomas, Glanogwen, yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod gartref ac yn gwella.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Vernon Owen a'r teulu, Abercaseg, yn eu profedigaeth o golli brawd-yng-nghyfraith ac ewythr.

**Profedigaeth**
Ar 24 Tachwedd yn sydyn yn ei chartref, 26 Pen-y-bryn, bu farw Mrs Eirlys Jones yn 86 oed. Priod annwyl y diweddar Mr Meirion Jones, mam garedig Alwyn a Tudur, a nain hoffus Lowri a Siân. Ni fu'r iechyd yn dda yn ystod y flwyddyn ond cafodd fynd i Windsor i briodas Lowri ychydig cyn ei marwolaeth a mwynhau hynny yn fawr iawn. Roedd yn aelod o Ferched y Wawr, Bethesda, ac yn mwynhau cymdeithasu gyda'i chyfeillion.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 28 Tachwedd, gyda gwasanaeth yn ei chartref a mynwent Coetmor lle daeth llu o deulu a chyfeillion ynghyd. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams a chafwyd teyrnged i Anti Eirlys gan Ieuan Wyn. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich profedigaeth fawr.

Yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 23 bu farw Mr George Leonard Smith, 2 Maes y Garnedd, yn 63 oed. Cymar annwyl Tina a thad hoffus Nathan. Nid oedd ei iechyd yn dda ers sawl blwyddyn ond nid oedd byth yn cwyno pan yn cael sgwrs gydag ef. Cafodd ofal caredig a gofalus gan Tina a Nathan hyd y diwedd.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 29 Tachwedd, gyda gwasanaeth yn ei gartref ac ym mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi Tina, Nathan a'r teulu i gyd.

**Dathlu 65 mlynedd**
Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Tom a Maggie Jones, Tŷ Coetmor, Bryn Bella, ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar ddechrau mis Rhagfyr. Dymuniadau gorau oddi wrth John a Bronwen, Gwyn a Helen, Thomas a Jeanette, Duncan a Tara, Sasha a Jasmine.

**Diolch**
Mae Joyce, 14 Maes y Garnedd, yn ddiolchgar iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phenblwydd arbennig ar 5 Tachwedd. Hefyd, diolch yn fawr i'r teulu am fynd a hi am bryd o fwyd i'r Stables, Betws y Coed.

Dymuna Llŷr Temple Morris ddiolch i bawb am y croeso cynnes a dderbyniodd ar ei ymweliad ậ Bethesda o Ganada yn ystod y tri mis diwethaf. Diolch yn arbennig i aelodau'r Clwb Rygbi am eu cwmni a'u anrhegion, a'r fraint o gael chwarae gyda hen ffrindiau. Diolch hefyd i deulu Maes Caradog am eu caredigrwydd. Pob hwyl Llŷr ar dy daith i Seland Newydd.

Dymuna Susan Roberts, Llawr y Nant ddiolch am yr holl negeseuon a gafodd yn holi ac yn dymuno yn dda i'w mam Margaret Roberts tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn arbennig i aelodau o Glwb Caban Gerlan.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Menna a Rhys, Bryn Coetmor, ar enedigaeth mab bach, sef Illtud Gwernydd, ym mis Tachwedd. Da hefyd cael llongyfarch nain a taid Bethesda sef Blodeuwedd a Ieuan Wyn Talgarreg, Carneddi, a nain a taid Bethel, sef Mary a Richard Lloyd Jones. Bydd hen ddigon o straeon i'w hadrodd i'r wyr bach gan bod Ieuan a Richard yn yr un dosbarth yn Ysgol Dyffryn Ogwen. 'Sgwn i a fydd yr awen yn cydio ynddo fel ei ddau daid hefyd?

**Yn yr Ysbyty**
Bu Siôn Guto Roberts mab John a Gwenllïan Erw Las yn yr ysbyty ym Mirmingham ym mis Tachwedd. Nid yw Siôn wedi bod yn dda ei iechyd ac yno cafodd ei asesu a thynnu hylif o'i gorff. Mae Siôn yn dioddef o glefyd ar yr iau ac mae bellach wedi ei roi ar y rhestr aros trawsblanniad. Tra bu'r teulu ym Mirmingham am y pythefnos roeddynt yn ddiolchgar iawn am yr holl negeseuon ffôn a negeseuon testun a phob dymuniad da i Siôn a dderbyniasant a bu hyn yn gynhaliaeth iddynt dros y cyfnod. Diolch hefyd i Glwb Gwawr Genod Pesda ac i weithwyr Ward Aran Ysbyty Gwynedd am eu cyfraniadau.

Mae Siôn yn fachgen dewr a dymunol pob amser gyda gwên ar ei wyneb gan fwynhau bowlio gyda Clwb Bowlio, Bethesda. Pob dymuniad da i ti Siôn.

Fel a nodwyd yn rhifyn Tachwedd o'r Llais mae Elin chwaer Siôn ymhell i ffwrdd yn gweithio ar y llongau. Braf oedd iddi allu defnyddio'r dechnoleg i gysylltu â'r teulu tra oedd Siôn yn yr ysbyty. Dymuna Elin hefyd ddiolch am yr holl ddymuniadau da a gafodd gan bawb cyn cychwyn ar ei siwrnai newydd.

**Ymddeol**
Wedi sawl blwyddyn o roi gofal tyner i'r henoed mewn dau gartref preswyl, pum mlynedd ym Mhlas y Coed, Bangor, a deng mlynedd ym Mhlas Ogwen, mae Joan Bullock, Rhes Elfed, wedi ymddeol oherwydd salwch. Diolch yn fawr iawn iddi am ei gofal a'i gwaith, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Profedigaeth**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 2 Rhagfyr, bu farw Mr Cyril Thomas, Maes Barcer, Caernarfon, Roedd Cyril yn wreiddiol o Maes Coetmor, ac yn frawd i Robat, Doreen, Ceinwen a Ron. Cydymdeimlwn â'i weddw, Dorothy, a'r plant, a'r teulu i gyd.

**Cyfarchion Nadolig**
Ni fydd Mrs. Nance Owen, 8 Rhes William, yn anfon cardiau y Nadolig hwn, ond mae'n anfon ei dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
at ei ffrindiau a'i chymdogion i gyd.

Ni fydd Mrs Mair Sullivan 7 Glanogwen yn anfon cardiau Nadolig eleni ond dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

Yr un yw'r dymuniadau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion gan Alan a Shirley Evans, Erw Las, gan na fyddant yn anfon cardiau eleni.

# Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod Tachwedd, ar nos Iau yr 28ain, dan lywyddiaeth y Fns. Elina Owen, i gyfeiliant Gwenno Evans.

**Anerchiad y llywydd**
Gorchwyl trist oedd cofio Eirlys Jones, Pen-y-bryn, a fu'n aelod ffyddlon i'r mudiad ers blynyddoedd. Gwraig gynnes, garedig a chartrefol oedd Eirlys gyda llawer o ffrindiau, a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu. Bydd ein colled yn fawr.

Cawsom funud o dawelwch i'w choffâu. Cydymdeimlwyd hefyd â Jean (Northam) sydd wedi colli ei brawd-yng-nghyfraith. I'r gwrthwyneb, pleser oedd croesawu Eleanor (Holland) yn ôl wedi anhwylder.

Wedi trafod yr ohebiaeth, daeth yn amser i groesawu'r gŵr gwâdd, sef, Eifion Pennant Jones (Jonsi). Mae Jonsi (fel mae pawb yn ei adnabod) yn gwneud gwaith ardderchog yn codi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru – gwasanaeth sy'n arbed amser ac felly yn arbed bywydau mewn argyfwng. Mae'r hofrennydd yn gallu glanio ar lecynnau anghysbell, diarffordd, a chyrraedd ysbyty mewn ugain munud neu lai. Ond, mae popeth yn costio. Mae angen £6 miliwn y flwyddyn i redeg y gwasanaeth, galwyn o ddeisel i hedfan am funud, a'r cyfan yn hollol ddibynnol ar wirfoddolwyr. Diolch amdanynt.

**Diolchiadau'r llywydd**
Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am yr holl wybodaeth , a fu'n 'agoriad llygaid', a'i arddull o'i drosglwyddo mewn modd ysgafn. Bu'r llywydd yn drawiadol yn ei chymhariaeth o 'adar angau', sydd yn lladd pobl ddiniwed a phlant ac 'adar coch',sydd yn dod a gobaith i lawer. Cofiwn y gân enwog 'Anfonaf angel i dy warchod heno'. Diolchwyd hefyd i'r merched a fu'n darparu'r lluniaeth.

**Y Raffl**
Rhoddwyd y wobr lwcus gan Eleanor (Morris) a'r enillydd oedd Glenys. Edrychwn ymlaen am ein Cinio Nadolig ar y 3ydd o Ragfyr.

# Gorffwysfan

Ar 6 Tachwedd aeth criw o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Cheshire Oaks. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau.

Anfonwn gyfarchion am wellhad buan at sawl un o'r aelodau sy'n cwyno y dyddiau hyn sef:
Mrs Alice Jones, Tan-y-Garth, Mrs Margaret Roberts, Hen Ysgol, Mrs Christine Jones, Hen Ysgol, Mr Jim Amos, Glanogwen,
Mrs Renee Parry, Maes-y-Garnedd, Mrs Margaret Pritchard, Tanrhiw

## Yr Eglwys Unedig

**Mis Tachwedd yn Yr Eglwys Unedig.**

*Mis di-raen, mis dirinwedd- llwyd ei wisg*
*Mwll, di-haul yw Tachwedd,*
chwedl William Griffith, Hen Barc, ond na ofidiwn am hynny, yn hytrach edrychwn ymlaen at Oleuni'r Adfent.

Ar y 5ed, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan ofal Eurwen Morris gyda Joe Hughes ac Elena Owen yn cynorthwyo , i gyfeiliant Gwenno Evans.

Cynhaliwyd seiadau wythnosol dan ofal y Parchedig John Owen. Mawr yw ein diolch iddo am lenwi'r bwlch, gan ein bod, yn awr, yn Eglwys ddi-fugail.

At y 14eg, cynhaliwyd cyfarfod agored gan Gymdeithas y Chwiorydd. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Emlyn Richards. Dyma noson werth chweil a phawb wedi mwynhau'r ffraethineb.
Yr Ysgol Sul. Mae'r plant yn prysur ymarfer ac edrychwn ymlaen am eu Cyngerdd Nadolig ar Ragfyr 15fed.

Llongyfarchiadau i'r Br. Emlyn Evans a'r Fns. Eileen Evans ar ddathlu 66 mlynedd o fywyd priodasol, ac i'r Bnr. William Hughes, Tregarth, ar gyrraedd penblwydd arbennig yn 90 oed. Yn ogystal, llongyfarchwn Ieuan a Blodeuwedd Wyn ar ddod yn daid a nain unwaith eto, i fachgen bach o'r enw, Illtud Gwernydd.

Bu Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, ei ferch, Anwen Hughes, Bryn Caseg, a John Jones, Ffordd Bangor yn yr Ysbyty yn cael triniaeth. Hyfrydwch oedd deall fod y tri yn gwella.

**Adnod y mis:** "A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd ; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad." Ioan 1. 14.

**Oedfaon.**
**Rhagfyr**
22 Parchedig Gareth Edwards. (10.00)
22 Oedfa'r Côr am 7.00
25 Y Sacrament am 9.30
29 Oedfa dan ofal yr aelodau (10.00)
Dim oedfa'r hwyr.
**Ionawr**
5 Miss Nerys Jackson (10.00)
5 Gwasanaeth Plygain dan ofal Ceri Dart a Walter Williams (5.00)



**Plant Clwb Celf yr Eglwys Unedig yn mwynhau trefnu blodau i addurno'r capel ar gyfer y Nadolig.**

## Clwb Gwawr Genod Pesda

Yn dilyn llwyddiant y cyfarfod cyntaf ym mis Hydref, bu'r ail noson sef taith tafarn gwisg ffansi'r clwb yn noson dda eto. Llwyddodd y genod i gasglu cyfanswm o £222.31 i blant mewn angen. Rhoddwyd yr arian yma i deulu lleol.

**Swper Nadoligaidd**
Diolch o galon i Sioned a Nerys a fu'n brysur dros ben yn paratoi ar gyfer ein swper nadoligaidd yn gynharach yn y mis.

**Cyfarfod Mis Ionawr**
Bydd y clwb yn cyfarfod nesaf ar y 9fed o Ionawr yng Nghlwb Rygbi Bethesda am 6 o'r gloch, am noson o ffitrwydd. Cyfle gwych i chi ferched ddod i ymuno efo ni a chael hwyl! Gobeithio gweld llawer ohonoch chi, yn aelodau newydd a hen wrth gwrs!

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:**
**Sul Cyntaf pob mis**
Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol – 11.00am
**Ail a thrydydd Sul pob mis** – Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
**Pedwerydd Sul pob mis** – Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
**Pumed Sul** – Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am – Cymun Bendigaid

**Arch Noa –** Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.
Ni fydd y Clwb yn cyfarfod yn ystod gwyliau'r ysgol

**GWASANAETHAU NADOLIG**
**Dydd Sul 22 Rhagfyr** – Gwasanaeth Naw Llith a Charol – 11.00am
**Dydd Mawrth 24 Rhagfyr** – Noswyl Nadolig
Gwasanaeth y Preseb – 4.00pm
**Cymun Bendigaid – 9.00pm**
**5 Ionawr 2014** – Cymun Ystwyll – 11.00am
Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan I chwi I gyd.

Dymunwn Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda a Bendithiol i bawb yn y plwyf.

# Coffâd
# Eirlys Jones

Bwlch Safn, Llandderfel uwchlaw afon Dyfrdwy ar lethrau'r Berwyn oedd dechrau'r daith i Eirlys, ac Allt Penybryn uwchlaw afon Ogwen yng nghysgod y Carneddau yw ei diwedd.

Fel y gwyddom ni, mewn cymdeithas glòs, 'Anti' ac 'Yncl' ydy teitlau cymydog a chymdoges gan blant, er nad oes unrhyw berthynas trwy waed. I ni, a fagwyd y drws nesa' iddi yma ar Allt Penybryn, fu dim newid yn Anti Eirlys. Gydol y blynyddoedd, welais i ddim newid yn Anti Eirlys, o 1954, a hithau yn ei hugeiniau hwyr, hyd at y dydd o'r blaen pan alwais i heibio. Yn llygaid fy meddwl arhosodd yn ddigyfnewid. Mae'r argraff a'r ddelwedd gyntaf un yn aros ers cyfnod plentyndod cynnar, wedi hen sefydlu ac yn sail i'r adnabyddiaeth a'r berthynas. Dyna ydy profiad plentyn.

Un o bobl y gymwynas oedd Eirlys. Cymdoges na welais hi erioed yn gas nac yn oriog. Chlywais i mohoni erioed yn dweud gair drwg am neb. Roedd hi'n gweld y gorau ym mhawb. Dawn ydy hynny.
Roedd marw Meirion yn ifanc yn colled fawr iddi hi ac i'r hogia, a llwyddodd drwy gyfnod anodd i ymgynnal yn ymdrechgar ac yn serchog er gwaetha'r holl her a'r anawsterau yn emosiynol ac yn ymarferol. Dewrder ydy hynny. Dyna ydy dewrder go iawn.

Câi bleser yn cymdeithasu, yn mynychu cyfarfodydd Merched y Wawr, ac roedd y crwydro ar deithiau bws efo'i ffrindiau yn bleser pur, ac ymhyfrydai yn ei chylch ffrindiau - cysylltiadau teuluol a chyfeillion agos sy yma heddiw y gwyddai y gallai ddibynnu arnyn nhw, a hwythau arni hithau. Dyma ydy ystyr cymdogaeth. Ac wrth ystyried hynny, mae dyn yn cofio'n dda yr ymwneud agos rhwng fy rhieni ac Eirlys a Meirion, ac mae'n braf cael dwyn i go' hanesion y troeon trwstan roeddan ni'n eu clywed wedi iddyn nhw fod ar eu gwyliau hefo'i gilydd, a'r codi hwyl dros sawl Nadolig a Nos Galan ar yr aelwyd hon, yn Llwyn Onn ac yng nghartrefi ffrindiau eraill.

Canhwyllau llygaid Eirlys oedd Alwyn a Tudur, y ddau yn gyson yn ei meddwl a'i chalon, ynghyd â Sam a Lowri, ei hŵyr a'i hwyres. Ac mor falch yr oedd hi ei bod hi'n ddigon iach i fedru mynd i briodas Lowri ychydig wythnosau'n ôl. Bu gofal Tudur gartref ar yr aelwyd hon yn fawr a thros gyfnod helaeth. Alwyn, Tudur, mae ein cydymdeimlad ni â chi'ch dau yn gywir heddiw ac i'r dyfodol wrth i chi yn eich ffyrdd personol eich hunain geisio dygymod â cholli mam.

"Pethau gwael ydan ni," fydda Nain Trefor yn ei ddweud mewn amgylchiad fel hwn. Mae'r "gwael" yn y dywediad yn cyfeirio at freuder ac ansicrwydd bywyd. Be fedrwn ni ond gofalu am ein gilydd? Dyna'r unig gomisiwn a gawsom ni.

Diolch sy gen i. Diolch, Anti Eirlys. Dydy plant ddim yn anghofio anwyldeb y sawl sy'n glên wrthyn nhw, ac sy'n cymryd diddordeb ynddyn nhw. Maen nhw'n cadw'r cof yn bur hyd byth. Maen nhw'n aros yr un yn llygad y meddwl, ac yn llygad y cof wedi iddyn nhw fynd.

Y mae'n brudd ym Mhen-y-bryn, - awr hirlwm
Rhoi Eirlys i'r priddyn,
Ond ynof mae hi'n gof gwyn,
Yn ieuanc, ddifrycheuyn.

**Ieuan Wyn**

# Cylch Ti a Fi Cefnfaes



**Dyma lun o blant bach Cylch Ti a Fi Cefnfaes yn eistedd ar eu blanced newydd! Hoffem ddiolch o galon i Angharad Hughes am ei holl waith called yn ei gwneud i ni. Mae'n fendigedig!**

## CAPEL BETHANIA BETHESDA

Ni chynhelir oedfaon yn Ionawr a Chwefror.
Mawrth 2 : Mr. Glyn Owen.
Mawrth 16 : Parchg. Gwynfor Williams.

**Oedfaon am 5.30**

**Croeso Cynnes i Bawb**

## Ti a Fi Cefnfaes

Bore dydd Mawrth
9.30 – 11.00 yb

**Canolfan Cefnfaes Bethesda**

Dewch i ganu, chwarae a chael paned

# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ **601880**

**5 Tachwedd 2006**
Dyma'r dyddiad yr oedd Siop a Swyddfa Bost Rachub i'w hagor gan y perchnogion newydd, Iain a Janet Scott. Yn anffodus, gan nad oedd gwaith ar y tu mewn wedi ei orffen bu raid gosod bwrdd tu allan i werthu papurau newydd y diwrnod a gadael bocs gonestrwydd yno. Roedd Iain yn falch fod y mwyafrif o'r trigolion wedi talu'n llawn! Mae'n anodd credu fod saith mlynedd wedi pasio ers hynny.

Mae ganddynt dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad fel siopwyr ac wedi gweithio i gyflogwr am sbel hir, gwelent hyn fel sialens. Serch hynny, roedd profiad o redeg yr un math o siop yn Llanfaes, ger Biwmaris yn ddefnyddiol iawn. Yn naturiol, mae'n rhaid i'r siop dalu'i ffordd ac mae angen gwneud bywoliaeth ar y teulu, ond maent yn gweld y siop fel man cyfarfod i bobl yr ardal mewn cyfnod lle mae colli gwasanaethau yng nghefn gwlad ar gynnydd.

Drwy'r Swyddfa Bost gallant gynnig y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a geir yn y swyddfeydd mwy, ac erbyn hyn maent wedi dod i ddeall anghenion y trigolion lleol. Mae hynny'n bwysig er mwyn gallu cynnig gwasanaeth a nwyddau sydd eu hangen arnynt. "Rhaid cofio fod cyflwr yr economi cyffredinol yn wael," meddai Iain, "ac mae'r archfarchnadoedd yma i aros. Felly rhaid i siopau bach gynnig y gwasanaeth sydd ei angen ar y trigolion lleol a hynny mewn ffordd gyfeillgar a phersonol. Rydym yma i wasanaethu, a chyda cydweithio rhyngom ni a'r cwsmeriaid mae'r dyfodol yn edrych yn addawol." "Mae'r hen ddywediad yn ddigon gwir sef, rhaid defnyddio'r gwasanaeth neu ei golli. Rydym yn barod i wrando ar anghenion y trigolion, felly os oes syniadau newydd gennych, rhowch wybod i ni. Diolch i chwi am eich cefnogaeth dros y saith mlynedd diwethaf a gobeithio y cawn eich gweld am flynyddoedd eto," meddai Iain.

**Diolch**
Dymuna Mrs Margaret Hughes, Bron Bethel, Hilary a Gaynor ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt trwy gardiau ac mewn geiriau, a hefyd am yr arian er cof am William, gŵr a thad annwyl.

# Capel Carmel, Llanllechid

**Clwb Dwylo Prysur**
Bu'r bobl ifanc yn brysur yn ystod y mis yn trefnu Noson Goffi gyda'r elw yn cael ei rannu rhwng tair elusen sef, Ymchwil Cancr, Ysbyty Great Ormond Street, Llundain, ac Apel Haiti Cymorth Cristnogol. Roedd hyn ynghlwm yng ngwaith ysgol Manon a Rhiannon. Bu pawb wrthi'n brysur yn gwneud cardiau Nadolig, cardiau Brysiwch Wella, eraill yn gwneud cacennau ac yn casglu nwyddau ar gyfer gwahanol stondinau. Roedd Miss Nia Williams wedi gwau planced fel gwobr i'r raffl, a hi hefyd roddodd y defnyddiau ar gyfer gwneud y cardiau. Yn ystod y noson bu'n dangos sut i wau gyda gweill anferthol. Codwyd £390 i'w rannu rhwng y tair elusen. Diolch i bawb a fu'n helpu y rhai ifanc a'u cefnogi yn y gwaith.



**Nia gyda rhai o'r genod.**

**TE BACH**
Rhoddwyd elw y Te Bach mis Tachwedd at Gronfa Trychineb y Philipinau. Y cyfanswm a drosglwyddwyd oedd £330. Diolch unwaith eto i'r merched am eu gwaith ac i bawb a gefnogodd y fenter.

## Carmel, Llanllechid

Ad-uniad Cyn-ddisgyblion
yr Ysgol Sul
a Chlwb Dwylo Prysur

27 Rhagfyr 2013
am 7.00 o'r gloch

Gwasanaeth Bore Nadolig
am 9.30 ar fore'r Ŵyl

Dewch yn llu

Bydd Croeso.

## Carmel, Llanllechid

**Trefn Gwasanaethau**

**Rhagfyr**
22 Parch/Ddr D.W.Williams 2.00
29 Gwasanaeth Carolau 5.00pm

**Ionawr 2014**
05 Cyfarfod Gweddi 5.00pm
12 Parch. Geraint Roberts 5.00
10 Parch. D.C.Williams 5.00pm

**Croeso cynnes i bawb**

**Cylch Ti a Fi**
Mae arweinwyr y cylch am ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Cylch dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn cafwyd trip i Gelli Gyffwrdd ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolch i Glesni a Rhiannon o Ysgol Dyffryn Ogwen am ddod i helpu, ac i swyddogion Capel Carmel am adael i ni ddefnyddio y festri dros dro, tra bo'r Ganolfan yn cael ei thrwsio. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Mae Gwilym Rees Evans, Ceunant, yn anfon cofion a dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r cymdogion a chyfeillion.

Yr un yw'r dymuniad gan Mrs Betty Jones, Cae'r Groes. Ni fydd Mrs Jones yn anfon cardiau y Nadolig yma, ond yr un yw'r cyfarchiad i gymdogion a chyfeillion, pell ac agos.

Ni fydd Eifion ag Ann Hughes, Cae'r Groes yn anfon cardiau eleni ychwaith ac maent am ddymuno Nadolig Llawen i bawb.

Dymuna Stan a June, 2 Yr Hen Ysgol, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'u cymdogion oll, am nad ydynt yn gyrru cardiau eleni.

Mae Augusta Williams, 2 Bron Arfon, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau eleni.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at drigolion sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty dros y mis diwethaf. Yn eu plith mae Mrs Betty Davies a Margaret Roberts, 'Rhen Ysgol, Mrs. Alice Jones, Tan y Garth a William Roberts, Bron Ogwen,

**Geni**
Llongyfarchiadau mawr i David a Jenna, Llwyn Bedw, ar enedigaeth eu merch, Elsi Mererid.

Llongyfarchiadau i Ann a Raymond Tugwell, Ffordd Llanllechid, ar ddod yn nain a thaid eto.

**Ysbyty**
Cafodd Margaret Roberts, Yr Hen Ysgol, amser digon anesmwyth yn ddiweddar. Ar ôl dod dros godwm a gafodd rhuthrwyd hi wedyn i Ysbyty Gwynedd pan oedd yng Nghlwb Caban Gerlan. Dymuna ddiolch o galon i aelodau'r clwb am edrych ar ei hôl mor dda a gofalus. Mae hi bellach adref ac yn gwella. Pob dymuniad da Margaret.

## Capel Bethel

**Ionawr**
05 : Parchg. Harri Parri.
12 : Y Gweinidog.
19 : Parchg. Dafydd Job.
26 : Parchg. Huw Pritchard.

**Oedfaon am 2.00 o'r gloch.**
**Croeso cynnes i bawb.**

## Colled Enbyd

Cododd y newydd am farwolaeth Evan Evans, Britannia Hall, fraw mawr drwy'r ardal. Bu yn yr ysbyty am gwta bythefnos cyn ei farwolaeth ar 9 Tachwedd 2013, yntau'n 67 mlwydd oed. Hynny mewn cyfnod lle wynebodd y teulu golledion enbyd mewn byr amser.

Cymeriad tawel, gyda gwên gyson ar ei wyneb oedd Evan, a weithiodd yn galed ar ran ieuenctid yr ardal yn ei ffordd dawel arferol am flynyddoedd. Fe'i ganwyd yn Rachub, cyn symud gyda'i rieni i Faes Coetmor tra'n hogyn ysgol. Dychwelodd i Rachub, via Tregarth, gyda Pearl Watts, Maes Bleddyn, ei wraig, 42 o flynyddoedd yn ôl. Ganwyd dau fab iddynt, Wayne a Lee. Rhoddodd Evan bwys mawr ar gefnogi'r teulu. Er yn weithgar yn yr ardal, dyn teulu oedd Evan yn y bôn.

Bu'n gweithio am flynyddoedd fel Swyddog Technegol ym myd teleffon, gyda B.T. Yn y chwedegau a'r saithdegau bu'n aelod o grwp pop, The Barton Clay Set, a theithiodd hyd a lled Gogledd Cymru a throsodd i Lerpwl i chwarae, heb anghofio hen ysgol Tŷ'n Twr. Dangosodd ddiddordeb pan oedd y grŵp Celt yn cychwyn ac yntau erbyn hyn yn arweinydd y Clwb Ieuenctid lleol.

Ond, ers pan oedd yn ddim o beth cicio pêl oedd ei brif ddiddordeb, diddordeb a welodd ef yn teithio'r byd fel hyfforddwr. Mwynhaodd ei amser yn Sweden, Yr Iseldiroedd, Denmarc ac yn North Dakota yn America. Roedd y clwb yno yn awyddus i'w gadw am fwy na'r tri mis a dreuliodd yno ond, fel yn hanes y cynnig a gafodd i ymuno a Tottenham Hotspur, gwrthod y cynnig wnaeth Evan a dod yn ôl i'w filltir sgwâr. Bu'n chwarae i glwb Llechid Celts am flynyddoedd, tan iddo frifo a gorfod rhoi'r gorau i chwarae. Aeth i reoli tîm Ieuenctid Bethesda Athletic gan sicrhau eu bod yn cael yr adnoddau gorau, ond roedd yntau'n disgwyl, ac yn cael, yr hogiau i fyhafio'n broffesiynol.

Cynhaliwyd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, yng Ngharmel ac yn yr Amlosgfa ym Mangor.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Pearl, Wayne, Lee a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

# Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Mr a Mrs David Edwards, 23, Pentre Llandygái, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli chwaer Dei, sef Mrs Myra Roberts, Trem Elidir, Bangor. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 6 Tachwedd a chynhaliwyd ei hangladd cyhoeddus ar 13 Tachwedd yn Eglwys y Groes, Maesgeirchen, ac Amlosgfa Bangor.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Eirlys Jones, Llanfairfechan, gwraig i'r diweddar Alun Ross Jones, gynt o 5 Pentre Llandygái, yn Ysbyty Gwynedd ar 26 Tachwedd. Roedd Eirlys yn wael ers amser maith ond fe frwydrodd yn ddewr drwy'r cyfan. Cynhaliwyd ei hangladd ar 4 Rhagfyr yn Eglwys Crist a'r Santes Fair, Llanfairfechan, ac Amlosgfa Bangor.

Cydymdeimlwn yn fawr â Gavin ei mab, Amanda a'r plant, hefyd Muriel a David a'r holl deulu.

**Gwaeledd**
Roeddem yn falch iawn o glywed fod Mrs Beryl Hughes, 'Yr Elan', yn gwella a'i bod wedi dechrau codi allan a chael mynd i Fangor gyda Jim. Mae'n ceisio mynd allan bob dydd pan fo'r tywydd yn caniatáu.

Cawsom newydd da hefyd am Dr Pam; cafodd hi lawdriniaeth i'w chlun yn ddiweddar ac mae'n gwella'n araf ac yn cofio at bawb. Mae'n ddiolchgar iawn am y cerdyn a gafodd gyda phawb yn y pentref wedi ei arwyddo a rhoi rhyw gyfarchiad bach iddi hefyd – syniad rhagorol gan Liz.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael ers tro:- Ernie a Nerys Coleman, Jim Hughes, Olwen Latham, Cassie Tindall, Beryl Williams a Dorothy Proudley-Williams, a'r rhai sy'n hoffi bod yn ddi-enw. Nadolig Llawen i chwi a'ch gofalwyr ffyddlon, boed yn deulu, cymdogion, ffrindiau neu ofalwyr proffesiynol. Byddwn yn meddwl amdanoch dros yr Ŵyl.

**Parti Nadolig Pobl Hŷn**
Ar 3 Rhagfyr yn Neuadd Talgai cynhaliwyd parti Nadolig i drigolion Talybont a Llandygái. Diolch i Mrs Myfanwy Jones, Bro Emrys, a'i ffrindiau am drefnu popeth. Roedd y neuadd yn llawn a phawb wedi cael amser gwych fel arfer.

**Cyngerdd Nadolig**
Bu plant y Babanod Ysgol Llandygai yn perfformio 'Annest yr Angel' o'r Sioe Nadolig ar fore Gwener, 6 Rhagfyr am 9.30 y bore. Os oedd y sioe hon rhywbeth yn debyg i'r cyngerdd a gawsom i ddathlu Gŵyl Dewi roedd y gynulleidfa wedi gwirioni'n lân unwaith yn rhagor – mawr ddiolch i'r staff a'r plant am eu gwahoddiad cynnes.

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

**Profedigaeth**
Rydym yn cydymdeimlo gyda Rhoda Edwards, Rallt Isaf, yn ei phrofedigaeth o golli ei diweddar frawd, sef George Edwards, Gernant, Braichmelyn.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Dewi Owen, Rallt Isaf, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith, y diweddar George Edwards, Gernant.

**Brysiwch wella**
Rydym yn anfon ein cofion at Len Williams, Ffordd Gerlan, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Braf yw cael dweud ei fod bellach adref, ac yn gwella. Pob dymuniad da am wellâd llwyr a buan i chi, Len.

**Brysiwch wella**
Treulio cyfnod yn yr ysbyty fu hanes Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, hefyd. Mae yntau yn awr adref, ac yn gwella. Cymerwch ofal rŵan, Tecwyn, er mwyn cael gwellâd llwyr yn fuan. Gyrrwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atoch.

**Cydymdeimlo**
Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys efo Hefina Watts, Abercaseg, a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli mam-yng nghyfraith Hefina, sef y ddiweddar Doreen Watts, Rachub.

Cafodd y teulu ergyd fawr arall o fewn dyddiau, sef colli brawd yng nghyfraith Doreen, y diweddar Evan Evans, yntau o Rachub. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwys fel teulu.

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Rydym yn llongyfarch pob un o blant yr ardal a gymrodd ran mewn unrhyw ffordd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Braf oedd gweld nifer sylweddol yn cymryd rhan, yn cael cymaint o lwyddiant, ac yn cyfrannu i lwyddiant yr eisteddfod.

**Diolch mawr**
Mae Gwenda Bowen, Stryd Hir, wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn werthwr y Llais yn yr ardal ddiwedd y flwyddyn hon. Llais Ogwan Rhagfyr 2013 fydd yr olaf iddi ei werthu.

Rydym yn diolch yn fawr iawn iddi am flynyddoedd o waith caled a chlodwiw yn mynd a'r Llais o ddrws i ddrws, ac yn dymuno'r gorau iddi i'r dyfodol. Heb wirfoddolwyr cydwybodol fel Gwenda a'i thebyg fyddai yna ddim dyfodol o gwbl i'r Llais, na llawer o weithgareddau eraill yn y dyffryn sy'n dibynnu ar ewyllys da gwirfoddolwyr. Diolch o galon, Gwenda. Yr un pryd rydym yn diolch i Eifion Rowlands, Ffordd Gerlan. am gytuno i roi ei ysgwydd o dan y baich, a chymryd dyletswyddau gwerthu Gwenda. Diolch, Eifion, a phob hwyl i tithau.

**Penblwydd Priodas**
Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau i Martin a Rhiannon Sturrs, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu 35 o flynyddoedd priodasol yn ddiweddar. Gobeithio ichi fwynhau'r dathlu yng Nghaerefrog. Mae'r holl deulu yn gyrru eu cyfarchion a'u dymuniadau gorau i chi'ch dau.

**Dymuniadau gorau**
Rydym yn gyrru ein cofion at bawb yn yr ardal sydd ddim yn teimlo'n dda, ac wedi dioddef unrhyw anhwylder, gan ddymuno gwellhad llwyr ichi i gyd.

**Nadolig Llawen**
Ehedodd blwyddyn arall heibio, a dyma'r Nadolig ar ein gwarthaf! Rydym yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd Dda i bawb. Gobeithio y bydd 2014 yn flwyddyn lewyrchus ichi i gyd.

**Bingo**
Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 19 Tachwedd a gwnaethpwyd elw sylweddol i'r coffrau. Diolch i Pauline a Raymond am noson hwyliog ac i bawb oedd yn bresennol. Tybed a oes rhyw sôn y bydd y bingo nesaf yn un arbennig i ddathlu'r Nadolig? Croeso cynnes i bawb.

**Gwaeledd**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Sue Matthews, Mrs Jane Couch, Mr Gwynne Edwards a Mr Harry Gross. Byddwn yn meddwl amdanoch i gyd yn ystod yr Ŵyl a brysiwch i wella.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd Bore Coffi yng nghaffi Coed y Brenin, Bethesda ddydd Sadwrn, 16 Tachwedd, a hwnnw'n llwyddiant mawr, gan wneud elw o £470 i'r eglwys. Diolch o galon i Nerys a Hazel am drefnu popeth; i aelodau'r eglwys am eu cymorth parod drwy'r bore ac i bawb a oedd yn bresennol. Diolch arbennig i staff Coed y Brenin ac i holl bobl Dyffryn Ogwen am y gefnogaeth.

**Diolch**
Diolch hefyd i Dorothy Hanks am drefnu i Sant Tegai gael stondin yng Nghanolfan Deiniol ym Mangor ar ddydd Sadwrn, 23 Tachwedd. Diolch i aelodau'r eglwys am edrych ar ôl y stondin yn ystod y dydd. Gwnaed elw o £111 i'r eglwys. Buoch yn garedig iawn yn rhoi o'ch amser prin yn enwedig yr amser yma o'r flwyddyn.

**Sul y Cofio**
Carem ddiolch i'r Parchedig John Matthews, Geraint Gill ac aelodau eglwys y Santes Fair, Tregarth am eu croeso cynnes ar Sul y Cofio (10 Tachwedd). Brenda a Catrin oedd yn darllen a Martin oedd yn darllen y gweddiau. Roedd y gwasanaeth yn dechrau am 10.00 yn yr eglwys ac wrth y gofeb am 11.00 y bore.

Cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Sant Tegai fore Sul, 17 Tachwedd, a daeth dros ddeugain i gymuno. Y Parchedig John Matthews oedd yn cymryd rhan a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Roedd paned a bisgedi ar ôl yr oedfa yn Neuadd Talgai – diolch i Nerys a'i ffrindiau am eu croeso.

**Te Nadolig Maes y Groes**
Bu prynhawn Sadwrn, 30 Tachwedd, yn yr Ysgoldy yn llwyddiant mawr a phleser oedd cael bod yno. Diolch o galon i chwi am eich croeso cynnes. Roedd y bwyd yn rhagorol a phawb wedi cael amser da. Mae'n siwr eich bod yn falch dros ben eich bod wedi casglu cymaint o arian at gronfa'r eglwys.

## Gwasanaethau'r Nadolig

**Nos Sul, 22 Rhagfyr –**
Gwasanaeth Naw Llith a Charolau am 5.00pm.

**Noswyl Nadolig –**
Yr Offeren am 11.15pm

**Bore Sul, 29 Rhagfyr –**
Gwasanaeth Undebol am 10.30am

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Llais Ogwan oddi wrth drigolion Llandygái.

**Sefydliad y Merched, Llandygái**
Croesawodd Eira bawb i'r Cyfarfod Blynyddol ar nos Fercher, 27 Tachwedd. Daeth tri ymddiheuriad am absenoldeb a darllenodd Eirlys Gofnodion Blynyddol 2012; hefyd y llythyr misol a llythyrau eraill.

Dewiswyd yr archwiliwr ariannol ar gyfer 2014 a chyflwynodd Eira y daflen ariannol am y flwyddyn ac fe'i derbyniwyd.

Eirlys wedyn ddarllenodd adroddiad yr ysgrifenydd, ac Eira hanes ein cangen dros y flwyddyn. Gan fod y swyddogion yn barod i aros yn eu swyddi am 2014 nid oedd angen etholiad. Felly Eira fydd y Llywydd, Eirlys yr Ysgrifennydd a Val Withers yn Drysorydd. Diolchwyd i'r tair am eu gwaith gan Gwyneth.
Mrs Pat Jones a ddaeth i arolygu'r noson a diolchwyd iddi hithau. Eisteddodd pawb i fwynhau pryd hyfryd o 'hotpot' a phwdin, oedd wedi ei ddarparu gan y pwyllgor.

# Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

**Newid Aelwyd**
Mae teulu bach newydd wedi symud i 15 Gernant i fyw. Croeso i chwi, a gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

Symud i'r byngalo wnaeth Elwyn Williams, yr un yw'n dymuniad i chwithau, Elwyn.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â'r Dr Goronwy Wyn Owen, 14 Gernant, yn ei brofedigaeth o golli modryb yn Manceinion.

**Anfon Cofion**
Yr oedd Mrs Myfanwy Morris, gynt o 3 Braichmelyn ond yn awr mewn cartref nyrsio ar Ynys Môn, yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 10 Rhagfyr. Anfonwn ein llongyfarchiadau iddi ar gyrraedd yr oedran hyn, ac anfonwn ein cofion cynnes ati.

Rhai eraill yr ydym yn anfon ein cofion atynt yw Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn, a Mrs Mair Richards, 2 Braichmelyn gynt, ond sydd bellach mewn cartref ym Montnewydd.

**Cyfarfchion y Tymor**
Dymuniadau gorau i bawb ohonoch dros yr Ŵyl a'r Flwyddyn Newydd.

# Talybont

**Neville Hughes,**
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

**Cyfarchion Penblwydd**
Bu Barry Owen, 4 Min Ogwen, yn dathlu ei benblwydd yn 60 mlwydd oed ar 25 Tachwedd. Gobeithio ei fod wedi cael penblwydd hapus iawn ac wedi mwynhau ei ddiwrnod mawr!

**Profedigaeth**
Trist yw cofnodi marwolaeth Beryl Allsop (Roberts gynt) yn 71 mlwydd oed.

Un o genod Talybont oedd Beryl, wedi ei magu yng Nghae Gwigin, ond wedi ymgartrefu ym Moelfre, Ynys Môn, ers blynyddoedd lawer. Mae ei ffrindiau yn Nhalybont yn cofio amdani fel "hen hogan iawn" oedd mor barod ei gwên a'i chwerthin bob amser. Mae rhai ohonom yn cofio'n dda am ei thad a'i mam, y diweddar Harry a Dilys Roberts, a hefyd ei thaid a'i nain William ac Elisabeth Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu oll yn y brofedigaeth fawr a ddaeth i'w rhan.

**Damwain**
Roedd yn ddrwg gennym glywed fod Sheila Owen, Millbank, Dolhelyg, wedi cael damwain ddrwg yn ei chartref. Bu'n rhaid iddi fynd i Ysbyty Gwynedd cyn symud i ysbyty yn Stoke am driniaeth. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi!

## Capel Bethlehem

**Rhagfyr 22:** Parchg. Ieuan Lloyd, Llanfairpwll;
**Rhagfyr 29:** Parchg. Trefor Jones, Caernarfon;
**Ionawr 5 :** I'w gyhoeddi ;
**Ionawr 12 :** Parchg. Dafydd Job, Bangor; Ionawr 19; Parchg. Pryderi Llwyd Jones, Cricieth;
**Ionawr 26 :** Mr. Dafydd Iwan.

**Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.**

**Ffair Nadolig**
Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'n Ffair Nadolig flynyddol a gynhaliwyd yn y festri ar nos Fercher, 4 Rhagfyr. Gwnaed elw anrhydeddus o bron i £700 tuag at y capel a'r Ysgol Sul.

## Eglwys Maes y Groes, Talybont

Yn ystod y gwasanaeth undebol ar y Sul cyntaf o'r mis bedyddiwyd Erin Fflur, sef merch fach Llios a Dylan, Tregarth ac wyres i Alun ac Anita, Ty'n Hendre. Arweinwyd y gwasanaeth gan ein ficer y Parchedig John Matthews gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys St Mair, Tregarth ar y 10fed Dachwedd i ddathlu Sul y Cofio dan arweiniad ein ficer y Parchedig John Matthews gyda Geraint Gill wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan aelodau o'r dair Eglwys.

Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys at aelodau sydd wedi colli annwyliaid yn ystod y mis sef Muriel Owen, Hefina Watts a Val Withers. Meddwl amdanoch i gyd yn eich profedigaeth.

Ar y Sadwrn olaf o'r mis cynhaliwyd ein Te Nadolig Blynyddol yn yr Ysgoldy. Diolch i bawb am ymuno â ni ac am gyfranu at y raffl a'r stondinau a'u rhoddion. Diolch unwaith eto i Phyllis Davies am drefnu'r achlysur mor drylwyr ac i bawb am eu cymorth i wneud y pnawn mor llwyddiannus. Gwnaed elw o £750.

Dymunwn bob hapusrwydd i David ac Ann Prichard sydd wedi symud i fyw i "Bryn y Môr" yn Gatws, Talybont. Hefyd i Owen ac Elin a'r teulu sydd wedi ymgartrefu yn Glanmor Isaf.

# Glasinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
**01248 351067**
Marred567@btinternet.com

**Sefydliad y Merched**
Llywyddwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn drefnus gan Mrs Mair Griffiths. Agorwyd y cyfarfod gyda'r aelodau yn sefyll i gofio am y Dr Pam Wilcock, gynt o Felin Hen, fu farw yn ddiweddar. Bu Pam yn gyn lywydd ac ysgrifennydd y gangen, hefyd yn Swyddog Addysg y Ffederasiwn. Cofiwn amdani yn annwyl iawn. Croesawyd Mrs Margaret Lloyd Jones i'n plith a llongyfarchwyd Christine ar gwblhau ei blwyddyn gyntaf fel trysorydd. Mae Christine yn ymddeol o'i gwaith yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig a dymunwn yn dda iddi.

Diolchwyd hefyd i Dr Anne Illsley am ei chyfraniad fel ysgrifennydd am y tair blynedd olaf.
Wedi anerchiad byr gan Mrs Margaret Lloyd Jones ar y testun ‘Coming Together - pawb â’i job’ ac ethol swyddogion newydd cafwyd y fraint unwaith eto ( am y pedwerydd tro) o groesawu Mr Alun Pritchard o Drefdraeth, Ynys Môn, atom.

Rydym wrth ein boddau yn cael ‘diweddariad’ gan Alun ar ei waith yn Kenya. Unwaith eto bu Alun yn Kenya am ddeg wythnos yn gweithio ar ei gynllun o adeiladu tai i'r pentrefwyr tlawd sy'n dioddef o'r afiechyd AIDS. Ei gynllun eleni oedd codi 12 o dai. Enw'r cynllun oedd ‘Rescue Steps - ( Camau Achub). Dyma'r tri cam: 1. Lloches 2. Bwyd 3. Dŵr Glân.

Dyma yw nod Alun a gyda chymorth y mae’n llwyddo. Dyn arbennig ydyw ac un i'w edmygu, yn gweithio’n dawel, diwyd a chydwybodol. Dyma berson gyda'r WOW FFACTOR yn sicr! Mae'n bleser cael ei gwmni.

Diolchwyd i Alun gan Janet Rees. Paratowyd y baned gan Jocelyn Bowen a Margaret Hughes a rhoddwyd y raffl gan Mrs Muriel Pritchard.

Cyhoeddodd Mair fod yna £29.32 yn y bocs Tŷ Gobaith a bod casgliad y bocsys Operation Christmas Child yn parhau am gyfnod.

Edrychwn ymlaen at ein cinio Nadolig sydd wedi ei drefnu gan Mair ac rydym am gyfarfod yn y Venue Llandudno ar ôl y Nadolig i weld y panto, Sleeping Beauty. Cymeraf y cyfle yma i ddiolch i Mair ar ran yr aelodau am yr holl drefniadau wnaeth hi ar ein cyfer ac i ddymuno Nadolig Llawen i bawb. Hwyl tan ddechrau'r flwyddyn newydd.

**Cydymdeimlo**
Bu farw Dr Pamela Wilcock yn ddiweddar, gynt o Felin Hen. Bu hi a’i diweddar ŵr, yr Athro Leslie Wilcock, Athro Ffiseg Prifysgol Bangor, yn byw yn Felin Hen gyda’u plant Lucy a William nes i'r ddau ymddeol i Landudno ac yna symudodd Dr Pam i Landrillo yn Rhos ar ôl colli ei gŵr.
Bu'r ddau yn gefnogol iawn i'r ardal ac roedd Dr Pam yn gyn Lywydd ac Ysgrifennydd Sefydliad y Merched Glasinfryn. Cofiwn ni hi yn dod yn y mini bach gwyn o Landudno i'r cyfarfodydd! Cydymdeimlwn â’r teulu yn eu profedigaeth.

**Dosbarthiadau yn y Ganolfan**
Cofiwch am y dosbarthiadau difyr sy’n cael eu cynnal yn y Ganolfan yng Nglasinfryn:

**Ioga** – Cynhelir y dosbarth bob bore Llun o 11.00 am - 12.30 pm. Mae lle i 2 berson. Y cyntaf i’r felin! Cysylltwch â Mair Griffiths am fwy o fanylion – 01248 352966.
**Tai Chi/Chi Gung** - Cynhelir y dosbarth bob nos Fawrth o 6.30yh - 7.30yh. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jill Turner 01248 351672.

**Clwb Cant y Ganolfan Tachwedd**
£20 - 89 - Margaret Parry
£10 - 42 - Elfed Griffith
£5 - 43 - Eirwen Orwig
£5 - 48 - David Williams

**Bingo a Noson Goffi**
Codwyd £105 tuag at Y Gymdeithas Strôc, Ysbyty Eryri yn y Bingo a'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 15 Tachwedd. Bydd y nesaf ar 6 Rhagfyr at Ysgol Pendalar. Gawn ni fanteision ar y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi’r Bingo boed drwy fynychu neu roi cyfraniadau tuag at y gwobrau, neu yn ariannol. Golyga hyn fod yr arian i gyd a godwyd ar y noson yn mynd at yr achos. Diolch o galon i bawb.

# Pentir

**Anwen Thomas,**
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

## Eglwys Sant Cedol

**Clwb 100 Mis Tachwedd**

1af Rhif 48
Mai Williams, Rhiwlas
2ail Rhif 68
Alun Griffith, Pentir
3ydd Rhif 8
John & Janet Rees, Pentir

**Ffair Nadolig**
Cynhalwyd ein Ffair Nadolig brynhawn Sadwrn, 30 Tachwedd. Roedd yn brynhawn hwyliog a llwyddianus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Gwasanaethau Sul**
22.12.13 Boreol Weddi 9.45am
24.12.13 Cymun Nadolig 9.30pm
29.12.13 Cymun ar y cyd 10am - yr unig wasanaeth yn y plwyf
05.1.14 Cymun Pawb 9.45am
12.1.14 Boreol Weddi 9.45am
19.1.14 Cymun Bendigaid 9.45

Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau.

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Fel Eglwys hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y fro.
Hefyd dymunwn ddiolch i drigolion y fro am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Unwaith eto diolch yn fawr iawn.

**Apêl Pentir Tŷ Gobaith**
O ddeutu tair mlynedd ar ddeg yn ôl daeth carfan o bobl at eu gilydd mewn cyfarfod cyhoeddus yn Mhentir i ddechrau meddwl codi arian at Tŷ Gobaith. Arweinwyd y noson gan y diweddar Gynghorydd Owie Roberts. Trefnwyd y barbaciw cyntaf a gynahliwyd yn ngardd John Turner. Sylweddolodd y pwyllgor ei fod yn fodd o godi arian a chael y pentrefwyr at eu gilydd.

Dewisiwyd Tŷ Gobaith fel elusen oherwydd i deulu yn ein plith gael cymorth amrhisiadwy ganddynt yn y gorffennol.

Ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarch symudwyd i gae Bryn Meddyg. Cafwyd cerddoriaeth jazz gan Einion Dafydd, ac yn ddiweddarach cafodd y dorf ei diddanu gan Monsters on a Bus a Shoreliners.

Drwy gefnogi elusen i blant, anogwyd plant Pentir i gymeryd rhan yn y gweithgareddau a mawr yw ein diolch am eu gwaith clodwiw dros y blynyddoedd gyda’u stondin “slwdjio’r llygoden” a “taflu at goconyt” yn rhoddedig gan Tony Hook. Codwyd arian drwy raffl a cafwyd cyfraniadau hael gan nifer o gwmniau a busnesau lleol. Mawr yw ein diolch i chwi oll.

Ni bu’r tywydd yn garedig gyda ni bob blwyddyn ond llwyddodd pawb i fwynhau a dod yn ῆl flwyddyn ar ôl blwyddyn i’n cefnogi.

Gweddnewidwyd y gerddi a’r cae yn fan ymgynull gyda phebyll, bar, a llawer mwy. Diolch i’r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled dros yr holl flynyddoedd ac am y cyfraniadau hael o fwyd ac amser gennych oll.

Diolch i griw yr apêl, hen a newydd, am yr holl drefnu penigamp flwyddyn ar ôl blwyddyn - a’r holl ymroddiad.

Dros y blynyddoedd amcangyfrifir y codwyd £20,000 .

Trist yw dweud hwyl fawr ond mae angen toriad am gyfnod.

Felly unwaith eto diolch o galon i chwi oll.

# Rhiwlas

**John Huw Evans,**
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

**Damwain yn achos pryder**
Ychydig wythnosau’n ôl cafodd Dafydd Norman Jones ddamwain ddrwg gyda’i gar gan achosi niwed i’w frest a’i asenau. Bu hyn yn achos pryder i Glyn ei frawd o 11 Bro Rhiwen gan fod y ddau yn gymaint o ffrindiau. Bydd Norman yn dod i gael cinio gyda Glyn yn rheolaidd bob Sul a’r ddau yn treulio’r prynhawn gyda’i gilydd. Mae’n bleser dweud bod yr arferiad wedi ail-gychwyn gan fod Norman wedi gwella’n ddigon da erbyn hyn i gael gyrru unwaith eto.

O ran diddordeb, mae Glyn yn un o’r ychydig rai sydd yn parhau i fyw yn yr un tŷ ym Mro Rhiwen ag y symudodd ei rieni iddo pan osodwyd y tai gyntaf i denantiaid yn niwedd 1938 a Ionawr 1939. Adeiladwyd rhifau 1-19 gan Gyngor Gwyrfai yn ystod 1937. Y rhain oedd y tai Cyngor cyntaf i’w hadeiladu yn y pentref. Yn rhif 11 y ganwyd Glyn ac yno y bu’n byw gydol ei oes.

Enghraifft arall yw Iona Jones, 17 Bro Rhiwen. Ei thaid a’i nain, William a Mary Williams, oedd y tenantiaid cyntaf. Yno y magwyd Lydia, mam Iona, ac hefyd Iona ei hun.

**Dathlu pen-blwydd**
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da at Mrs Maggie Jones, 2 Rhes Penrhyn, Waun Pentir. Dathlodd ei phen-blwydd yn 96 oed ar 1 Rhagfyr.

**Tafarn ar Werth**
Yn rhifyn Awst 18, 1900, o’r North Wales Chronicle, ymddangosodd yr hysbyseb canlynol – dyma fras gyfieithiad ohono.

“Ar orchymyn Mrs M.J.Parry, Derbynydd Ystad Mrs Mary Morris, Rhiwlas, ger Bangor.
O ddiddordeb i fragwyr a gwerthwyr diod trwyddedig. Bydd Mr John Pritchard a Porter yn gwerthu mewn ocsiwn gyhoeddus yng Ngwesty’r Sportsman, Caernarfon, ddydd Sadwrn, Medi 1af, 1900 am 2.30pm, yr oll o Dafarn Rhydd Ddaliad
Y Coach and Horses, Rhiwlas
Mae oddeutu 2½ milltir o orsaf Felin Hen ar y rheilffordd o Fangor i Fethesda. Mae ar gornel bwysig a’r unig dafarn yn y pentref.
Mae’r adeilad yn cynnwys siop fechan gyda bar, ‘smokeroom’, parlwr, ystafell fyw gyda stôf fechan. Tair ystafell wely, atic a seler, cwt glo ac ystabl.
Mae cyflenwad da o ddŵr oddimewn i’r adeilad. (Ffynnon yn y selar oedd y cyflenwad dŵr.)”
Daeth oes y Coach and Horses i ben yn 1917 ac fe fu’n siop am nifer o flynyddoedd wedi hynny sef Maelfa. Ni newidwyd rhyw lawer ar y lle a’r bar oedd cownter y siop yn union fel ag yr oedd yn nyddiau’r dafarn.

**Dymuno gwellhad**
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at y rhai yn y pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar: Eric Jones, Hen Ysgubor; Richard Williams, 19 Caeau Gleision ac Alister Tye, Cae Glas. Mae Alister yn Ysbyty Eryri ers rhai wythnosau. Cofiwn hefyd am y rhai sy’n gaeth i’w cartrefi am wahanol resymau: Griff a Meirwen Owen, Frondeg; Ifor Hughes, 107 Cae Glas; Mai Williams, 16 Bro Rhiwen; Bet Jones, 20 Bro Rhiwen, a Heulwen Evans, 30 Bro Rhiwen.

**Gair o ddiolch**
Yn dilyn cais am help gyda’r gwaith o ddosbarthu Llais Ogwan yn y pentref ac i nôl y papur o Fethesda ar noson plygu, daeth nifer i’r adwy i gynorthwyo. Gwirfoddolodd Gareth Williams,

19 Caeau Gleision i werthu'r papur yn Caeau Gleision, Hafod Lon a Bro Rhiwen. Mae Gareth yn ogystal wedi llwyddo i werthu ugain Calendr Llais Ogwan. Diolch o galon i bawb sydd mor barod eu cymwynas a hefyd i'r rhai a fu wrthi ers sawl blwyddyn yn dosbarthu'r papur yn yr ardal.

**Ffordd Moelyci**
Mae gennyf gof am ddau ddigwyddiad sydd yn brawf o'r dirywiad a fu yng nghyflwr y ffordd yn ystod blynyddoedd diweddar. Hyn oherwydd esgeulustod gan y Cynghorau. Un yw cofio gŵr o Fynydd Llandygái yn dod trosodd i Rhiwlas gyda char a cheffyl i werthu bara yn y pentref. Roedd gorchudd dros y car i gadw'r bara a'r gyrrwr rhag y glaw. Roedd hyn oddeutu 1933-34. Credaf mai John neu Thomas Davies oedd ei enw. Tybed a oedd ganddo fecws yn Mynydd? Oes gan gyfeillion Mynydd unrhyw wybodaeth?

Yr ail yw cofio fel y byddai hogia Rhiwlas yn casglu wrth Tyddyn Llidiart yn ystod hafau 1938 a 1939, oherwydd ar gyfnodau byddai Clwb Moduro Bangor yn cynnal profion amser (Time Trials). Cychwyn o Fangor, trwy Llandygái ac i Bentir. O Bentir i fyny'r ffordd o'r Ficerdy, heibio i Rallt Uchaf a Tyddyn Llidiart, yna dringo'r Clip Mawr a throsodd i Fynydd Llandygái. Byddai ambell un yn cael trafferth ar y Clip ond ni chofiaf yr un yn methu'n llwyr.

Credaf mai Riley oedd pob un o'r ceir. Byddai hyn yn gwbl amhosibl erbyn heddiw.

## Clwb Rhiwen

Yn ein cyfarfod ar 13 Tachwedd daeth Aled atom o Uned Ailgylchu Gwynedd. Bu'n trafod y pethau y dylem eu gwneud ac roedd yn pwysleisio mor bwysig yw gwahanu'r sbwriel. Eglurodd hefyd fod y Cyngor yn trialu math newydd o focsus ar y funud mewn rhai ardaloedd. Diolchwyd iddo gan Anna. Helen a Iona oedd yn gyfrifol am y baned. Enillwyd y raffl gan Dilys.

Cyfarfod 27 Tachwedd
Daeth Gareth Roberts atom o Menter Fachwen i sôn am y mapiau y mae'n eu cynhyrchu. Fe ddechreuodd y syniad gyda chais rhai blynyddoedd yn ôl gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen i lunio map o lwybrau'r plwyf a chofnodwyd dipyn o ffeithiau diddorol ar y map hefyd, gyda Gareth yn dangos ei ddawn fel dylunydd. Bellach y mae wedi cynhyrchu nifer fawr o fapiau ac mae galw mawr am ei wasanaeth.
Y mae hefyd yn trefnu teithiau, sydd yn boblogaidd iawn. Cawsom bnawn difyr yn ei gwmni, sleidiau diddorol, a dysgu am ein bro.

Diolchwyd iddo gan Ann. Pam a Dee oedd yn gyfrifol am y baned, ac Eirlys a Gareth enillodd y raffl.

## Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas

Llywydd y mis oedd Gwen a chroesawyd ni i'r cyfarfod. Braf oedd gweld cynifer o'r aelodau yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nia.

Cafwyd gwahoddiad i ymweld â changen Deiniolen yn ddiweddarach yn y mis a chawsom wybodaeth am y Bowlio Deg ym mis Ionawr.

Y gŵr gwadd oedd Cynrig Hughes a'i destun oedd 'Plentyndod', yn addas iawn i un a dreuliodd flynyddoedd ym myd addysg, fel prifathro a darlithydd yn y Coleg Normal. Roedd wedi gwneud cais inni ddod â gwrthrych a oedd yn ymwneud â'n plentyndod ac yn ddiddorol iawn roedd y mwyafrif ohonom wedi dod â llyfrau. Ond hefyd cafwyd dol, y 'tri mwnci' wedi eu cerfio o garreg, a thri siswrn ar gyfer gwniadwaith.

Gan Cynrig ei hun roedd darn o bolyn lamp a'i hatgoffai o'r amser pan ddisgynnodd yn yr eira yn 1953 ac mae'n debyg mai gafael yn dynn mewn polyn lamp a'i cadwodd yn ddiogel nes daeth y teulu i chwilio amdano. Wedyn buom yn trafod beth a wyddom am blentyndod plant yng Nghymru heddiw a thu hwnt, ac roedd rhai ffeithiau yn frawychus, er enghraifft, bod 30 y cant o blant Cymru yn byw mewn tlodi.

Roedd naws cartrefol i'r noson, digon o chwerthin ond wedi trafod pynciau dwys a difrifol hefyd. Diolchwyd i Cynrig gan Annest. Einir ac Agnes oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl, a diolch eleni eto am y mins peis blasus!

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen.**
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
**☎ 600744**

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Estynnwn groeso mawr i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau i ddathlu Gwyl y Geni.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd ein Ffair Nadolig. Enillydd yr Hamper oedd Mrs. Lynda Owen, Mynydd Llandygái.

Diolch yn fawr i'r Parchedigion John Matthews, Idris Thomas a Christine McCrea am eu gwaith a'u cefnogaeth gydol y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at eu cwmni yn y flwyddyn newydd.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Ann Hughes, Ffordd Hermon. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at ei briod, y plant a'r teulu oll.

Cofiwn am bawb sy'n sal ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion oll.

Cyfarchion Nadolig i bawb yn y pentref a Blwyddyn Newydd lewyrchus i chwi oll.Rhag. 22: 9.45 Gwasanaeth "Naw Llith a Charol".
Rhag. 24: ll.30 Cymun Cyntaf y Nadolig.
Rhag. 29: 10 y.b. Cymun - Eglwys St. Cedol, Pentir (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

2014
Ion. 5: 9.45 Gwasanaeth Teuluol.
Ion. 12: 9.45 Cymun Bendigaid (Saesneg).
Ion. 19: 9.45 Cymun Bendigaid

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Tom Hughes, David, Corrina, Kevin a Donna a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Ann Hughes, gwraig, mam a nain annwyl iawn. Bydd colled fawr ar ei hôl. Cynhaliwyd gwasanaeth yn eglwys St Ann a St Mair ac wedyn yn mynwent St Ann's.

**Diolch**
Dymuna Iola a Steff ddiolch yn fawr am anrhegion at y bingo ac at y tombola ar ran y Clwb Ieuenctid. Cafwyd noson dda, a bellach maent yn edrych ymlaen at y Parti Nadolig.

**Clwb y Mynydd**
Bu Clwb y Mynydd yn dathlu cinio Nadolig yn Rose Torr, Llandudno. Gwledd ardderchog! Diolch i Derfel Owen, Rhiwlas, am ein cludo ar y tripiau ar hyd y flwyddyn. Pawb wedi mwynhau.

**Cyfarchion Nadolig**
Ni fydd Mrs Megan Parry, Penrhiw, yn anfon cardiau Nadolig eleni. Er hyn, Nadolig Llawen i'r ffrindiau lu a'r cymdogion!

# Tregarth

**Gwenda Davies,**
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
**☎ 601062**

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
**☎ 600192**

**Dymuniadau da**
Nadolig Llawen a Blwyddyn werth chweil gan bawb o Dregarth i holl ddarllenwyr Llais Ogwan.

**Gair o ddiolch**
Hoffai Emlyn ac Annwen Thomas, Treceiri, Tal y Cae, ddiolch i bwyllgor Marchnad Ogwen am y cyfle i godi stondin 'Nwyddau wedi'i Gweu' ar 12 Hydref. Llwyddwyd i godi swm o £316.40 i Ymchwil Cancr, Prifysgol Bangor. Diolch o galon am bob rhodd ariannol, cyfraniad a chefnogaeth at yr achos teilwng yma.

Diolch Annwen ac Emlyn am wneud yr holl drefniadau ac am gasglu swm mor anrhydeddus at Ymchwil Cancr.

**Mewn Ysbytai**
Deallwn fod Val Heywood, Bro Derfel, wedi bod mewn ysbyty yn ddiweddar dan lawdriniaeth. Gobeithio eich bod yn cryfhau ac yn gwella bob dydd Val.

Ar hyn o bryd, yn Ysbyty Christies ym Manceinion yn derbyn triniaeth mae Chris Jones, (Tatws Bryn), 3 Hen Dyrpeg, Tregarth. Mae yno am gyfnod o tua tair wythnos a mawr obeithiwn eich bod chithau'n gwella Chris ac y cewch ddod adra at y Dolig. Cofion gan eich holl gwsmeriaid.
Anfonwn ein cofion at eraill sydd ddim yn teimlo'n rhy dda ar hyn o bryd. Beth am gael hanes rhai ohonoch ? Cofiwch gysylltu.

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Gwyneth Morris, 11 Maes Ogwen, a'r teulu oll, yn eu profedigaeth ar ddechrau'r mis. Gwyneth wedi colli ei chwaer, Beryl Allsop, ym Moelfre.

**Cyfarchion Nadolig**
i'n cymdogion a'n cyfeillion yn Nyffryn Ogwen, gan ddymuno haul ar fryn ichwi oll yn 2014.
Gan Iolo Wyn a Nesta Williams.

**Diolch**
Mae William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion am ddiolch i'w deulu, cymdogion ac aelodau Capel Jerusalem, Bethesda, am garedigrwydd mawr pan ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed ym Mis Tachwedd.

# Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, 4 Tachwedd, cafwyd cyfle i groesawu Rhian Sinnott, sy'n berchen Siop Cain, yn Llangefni, i Gangen Tregarth o Ferched y Wawr. Roedd cyfle i glywed Rhian yn siarad am gychwyn busnes, sef siop yn gwerthu gemwaith, sgarffiau, menyg etc.

Daeth ei thad, Edward Thomas i roi help llaw i Rhian i gario nwyddau a chodi stondin a bu cyfle i brynu amrywiaeth o nwyddau oedd ar werth. Noson hamddenol braf a chyfle i gael sgwrs a phaned i ddiweddu'r noson.

Diolchwyd i Rhian am noson gartrefol a llongyfarchwyd hi ar ei menter yn cychwyn busnes. Cafwyd cystadleuaeth o arddangos ' Hoff Emwaith' a'r enillydd oedd Jên Temple Morris, yn ail oedd Margaret Jones ac yn drydydd Iona Rhys Cooke.

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Gangen yn Nhafarn y Faenol, Pentir, Nos Lun, 2 Rhagfyr. Cafwyd pryd o fwyd ardderchog wedi'i drefnu gan Beryl Hughes a Carys Williams.

Dymunwyd Nadolig Llawen i'r holl aelodau a'u hatgoffa o gyfarfod Mis Ionawr, ar Nos Lun, 6 Ionawr, yn Festri Capel Sholih am 7.30. Y gŵr gwâdd fydd Huw Davies, Tŷ Dŵr, Gerlan ond yn enedigol o Erw Faen , Tregarth, a bydd yn sgwrsio am ei waith yn Antur Waunfawr. Croeso cynnes i'r holl aelodau ac i aelodau newydd sbon danlli !

## Merched y Wawr Cangen Tregarth

Yn Festri Capel Shiloh
Nos Lun 3 Chwefror am 7.45

**ANGHARAD TOMOS**

**YN SGWRSIO AR Y TESTUN**

**"CRWYDRO"**

Croeso mawr i'r cyhoedd
ddod i'r noson yma.

Noddwyd gan LLENYDDIAETH CYMRU

# Eglwys y Santes Fair

**Gwasanaethau**
Rhagfyr 22 : Cymun Bendigaid
Rhagfyr 29 : Gwasanaeth yn St. Tegai am 10.30 y.b.
Ionawr 05 : Gwasanaeth Anffurfiol
Ionawr 12 : Cymun Bendigaid
Ionawr 19 : Boreol Weddi.

Pob gwasanaeth am 9.45 y.b. oni nodir yn wahanol.

Clwb Cant Tachwedd

| | | |
|---|---|---|
| £15 | (2) | Linda Irons |
| £10 | (80) | Glenys Morgan |
| £5 | (46) | Mair Griffiths |

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig Yr Adfent ddydd Sul, Rhagfyr 1af. Roedd nifer dda yn bresennol a'r canhwyllau yn effeithiol iawn yn goleuo'r eglwys.

## Clwb 100 Canolfan Tregarth

**Mis Hydref**

| | |
|---|---|
| 5 Annette Jones | £15 |
| 15 Buckley Wyn Jones | £10 |
| 57 Peter Roberts | £5 |

**Mis Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 50 Dafydd Vaughan Jones | £15 |
| 37 Angharad Williams | £10 |
| 23 Gwenda Davies | £5 |

## Capel Shiloh

**Ysgol Sul 10.30**
**Oedfa'r Hwyr 5.00**
Rhagfyr 22 am 4 o'r gloch
Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.
Parti Nadolig i ddilyn i bawb !

Cynhelir Gwasanaeth Cymun Noswyl y Nadolig yn Shiloh am 6.30.
Croeso cynnes iawn i bawb a hoffai ymuno yn yr oedfa .

Rhagfyr 29 Trefniant Lleol
Ionawr 5 Parchedig Gwynfor Williams
Ionawr 12 Parchedig Idris Thomas, Dinorwig
Ionawr 19 Parchedig W.R. Williams, Y Felinheli
Ionawr 26 Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

**Cyfrannu at Apêl y Philipinau**
Anfonwyd siec am £170 gan aelodau Capel Shiloh i Gymorth Cristnogol gogyfer Apêl y Philipinau.

**Buddug a Freya yn ymweld â'r Ysgol Sul**
Bore Sul, Tachwedd 10 cawsom ddau ymwelydd arbennig iawn sef Buddug Jones o Gaernarfon a'i chi tywys Freya. Dyma'n eildro i Buddug ddod atom i'r Ysgol Sul ond y tro cynta i Freya gan mai ci arall oedd gan Buddug y tro hwnnw. Mae bob amser yn bleser gwrando ar Buddug yn sgwrsio amdani ei hun ac am waith ei chi tywys, sy'n gymaint o gymorth iddi o gwmpas y tŷ a phan fydd yn mynd allan ar y stryd yng Nghaernarfon. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael rhoi mwythau i Freya a hithau yn ei thro yn mwynhau'r sylw gan y plant. Ar ddiwedd y bore trosglwyddwyd siec o £70 tuag at Gronfa Cŵn Tywys Gogledd Cymru a hynny'n dilyn y casgliad wnaed yn y Gwasanaeth Diolchgarwch fu ym Mis Hydref.

**Bedydd**
Bore Sul, Tachwedd 24, dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams , bedyddiwyd Medi Lois, merch fach Sasha a Phil, Bryn Caseg, Bethesda. Mae Medi yn wyres i Wendy Dore, Bethesda, ac yn orwyres i J.O Roberts, Allt Pen y Bryn, Bethesda. Deallwn mai Medi ydi'r bumed genhedlaeth o'i theulu i gael ei bedyddio yn Shiloh. Pob dymuniad da i Medi a'i theulu.

## *Llythyr*

**Tyddyn Canol,**
**Llwybrmain,**
**Mynydd Llandygái**

**Annwyl Llais,**
Diddorol oedd darllen llythyr Keith Williams o Fanceinion yn rhifyn Tachwedd o'r Llais yn cyfeirio at fywyd ei ddiweddar dad, Eifion Williams.

Mae'r llythyr wedi dwyn atgofion melys iawn gan mai Eifion Williams oedd ein hathro Ysgol Sul yn Eglwys y Gelli, Tregarth. Dosbarth i fechgyn o dair ar ddeg i fyny, yn cynnwys Oscar Jones, Meirion Parry, Brian Parry, John Roberts, Merfyn Roberts a minnau.

Roedd Eifion yn ŵr gwybodus yn y Beibl, ac yn gallu creu trafodaeth ddiddorol yn enwedig pan yn trafod yr Hen Destament.

Yn rhyfedd iawn yn ystod yr haf diwethaf, pan yn pysgota yn yr Afon Ogwen ger maes gwersylla Dinas, Tregarth, daeth ymwelydd ataf a dechrau fy holi am yr ardal, a datgelodd y ffaith mai hogyn o Dregarth oedd yn wreiddiol. Barry, mab Eifion Williams, a brawd Keith, oedd yr ymwelydd! Byd bychan!

**Cofion,**
**Alan Davies**

# William Morris (1825 – 1869) Cerddor

Ffurfiwyd Côr Dirwestol Braichmelyn, Bethesda, yn 1849, gyda William Morris yn un o'r arweinyddion. Roedd yn ŵr main, tal, unllygeidiog, ac yn denor swynol fel ei frawd ieuengaf, Thomas Morris ('Eos Idwal'). Ymddiddorai'r ddau frawd mewn cerddoriaeth, a bu William Morris yn mynychu dosbarthiadau cerdd ac ysgol gân o dan 'Alawydd'. Aeth ati i gasglu côr at ei gilydd, ac ymuno â chorau eraill i wasanaethu yn rhai o wyliau dirwestol y cyfnod. Bu galw mawr am Gôr Braichmelyn yn Siroedd Môn ac Arfon, ac aent cyn belled â Lerpwl a Manceinion i berfformio mewn cyngherddau dirwestol. Buont yn symbyliad mewn sawl ardal i ffurfio corau eraill. Yng Ngorffennaf, 1850, ymgasglodd yr holl gorau at ei gilydd i gynnal Cymanfa Ganu fawr yng Nghastell Caernarfon. Ond awr fawr Côr Braichmelyn oedd yr cael gwahoddiad i ganu yn Neuadd Exeter yn Llundain a'u rhoi o flaen yr orymdaith ddirwestol oedd yn gorymdeithio drwy strydoedd Llundain yn ystod Arddangosfa Fawr 1851.

Dwy flynedd yn ddiweddarach, ym Mehefin 1853, a William Morris erbyn hyn yn 28 oed, ymfudodd ef a'i gôr bron i gyd, dros hanner cant ohonynt, i'r Unol Daleithiau. Cynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol iddynt cyn hwylio o Lerpwl ar fwrdd yr Universe, yn nechrau Gorffennaf. Ar ôl glanio yn yr America ymsefydlasant yn Peach Bottom, Pensylvania – ardal chwareli. Cyn pen dim yr oeddynt yn teithio oddi amgylch i ganu ac, yn Chwefror 1854, yn cynnal cyngerdd yn ninas Philadelphia dan yr enw Cambria Minstrels.

Yn Rhagfyr 1856 cynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol arall, ond y tro hwn yn Peach Bottom, i ffarwelio â rhai o aelodau'r côr oedd ar gychwyn am fwyngloddiau aur Califfornia. Mewn canlyniad i'r rhuthr hwnnw dadfeiliodd yr hen gôr yn Peach Bottom ac ni chafwyd dim o'i hanes ar ôl hynny. Yn Ebrill 1856 cafodd William Morris ei godi'n flaenor ac yn arweinydd y gân yng Nghapel yr Annibynwyr Bethesda, Peach Bottom. Yn 1869 bu farw o'r twymyn typhoid yn 44 oed, ac yn dad i chwech o blant.

Diolch yn fawr i W. Arvon Roberts, 33 Maes y Llyn, Pwllheli, am yr hanes uchod.(gol.)

# O'r Llyfrgell

## Llyfrgell Bethesda

Oriau cau dros gwyliau y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

Nadolig
Cau am 4.00 o'r gloch
dydd Mawrth, 24 Rhagfyr.
Ail agor dydd Gwener, 27 Rhagfyr.
10.00am - 12.00pm a 2.00pm - 6.00pm

Y Flwyddyn Newydd
Cau am 4.00 o'r gloch
dydd Mawrth, 31 Rhagfyr
Ail Agor Dydd Iau, 2 Ionawr 2014,
2.00pm - 6.00 pm

## Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**© Dr J. Elwyn Hughes**



**Dyddiadur Digwyddiadau 1862-1864**

**1862**
• 20/05/1862: Marw'r Parchedig Morris Jones, Jerusalem, 'Yr Hen Broffwyd', yn 80 oed, a'i gladdu ym Mynwent Glanogwen.
• Awst, 1862: Sefydlu'r Parchedig Rowland Williams (Hwfa Môn) yn weinidog Capel Bethesda. Bu yno tan 1867.
• Yr Arglwydd Penrhyn yn cynnig adeiladu Rheithordy newydd (i Eglwys Llanllechid) yn rhan uchaf y plwyf. Roedd Rheithorion Llanllechid yn arfer byw ym Mhlas Maes-y-groes. Derbyniwyd y cynnig ac adeiladwyd y persondy 'ar lecyn prydferth ger y "Ffordd fawr" i Fangor erbyn 1865'.
• Gwariwyd £350 ar adeiladu Tŷ Capel newydd, ystabl a coach-house, ynghyd ag ystafell at wasanaeth yr Ysgol Sul, i Gapel Peniel, Llanllechid – yn cynnwys paentio ac ychwanegu at yr eisteddleoedd ar y llawr.

**1863 (tua)**
• Codi Tŷ Gweinidog Capel Carneddi ('Y Fron') a gostiodd £387-17-0.

1863/1864
• Sefydlu Cymdeithas Cymreigyddion Bethesda. Cynhaliwyd eisteddfodau dan nawdd y Gymdeithas hon rhwng 1864 ac 1869 a chaent eu hystyried ymhlith yr eisteddfodau taleithiol mwyaf yng Nghymru o ran poblogrwydd a llwyddiant.

**1864**
• Cynnal Eisteddfod gyntaf Cymdeithas Cymreigyddion Bethesda. Hugh Derfel Hughes yn fuddugol ar ysgrifennu 'Llawlyfr y Garnedd (neu Tair Ffordd i Ben y Garnedd)'.
• Codi nifer o dai yn y Gerlan, enw a gymerwyd oddi wrth fferm a safai ar y tir ganrifoedd yng nghynt ond a arferid am oddeutu hanner dwsin o dai a alwyd wedi hynny yn 'Gerlan Terrace' (er mai 'Yr Hen Gerlan' fu enw rhai o'r trigolion hynaf arnynt hyd y 1990au). Ar dir Stad Ciltrefnus, fferm o 43 acer, y codwyd nifer o'r tai ac ar dir tyddyn cyfagos, Cae Ronw, y codwyd tai Stryd y Ffynnon a Stryd Goronwy a rhan o ffordd Gerlan.
• 28/08/1864: Agor Capel Brynteg. Adeg ei sefydlu, roedd 140 o aelodau yno a 194 erbyn 1866. Ar ddiwedd 1864, roedd 38 o athrawon a 7 athrawes yn yr Ysgol Sul a 216 o ddisgyblion.
• Yn ôl Hugh Derfel Hughes, roedd nifer y disgyblion yn yr ysgolion lleol, fel a ganlyn:
**Ysgol Frutanaidd Rachub:** 75 o fechgyn, 75 o enethod = 150
**Ysgol Genedlaethol Rachub:** 95 o fechgyn, 108 o enethod = 203
**Ysgol Tyn-tŵr:** 148 o fechgyn, 144 o enethod = 292
[dan ofal y Prifathro, W. Jones, ac un athrawes (Ann Morgan)]
**Ysgol Llandegai:** 129 o fechgyn, 161 o enethod = 290
**Ysgol Bodfeurig:** 110 o fechgyn, 104 o enethod = 214
**Ysgol Frutanaidd Carneddi:** 127 o fechgyn, 129 o enethod = 256 (dan ofal un athro)
**Ysgol Glanogwen:** 132 o fechgyn, 129 o enethod = 261
**Cyfanswm y disgyblion:** 816 o fechgyn, 850 o enethod = 1666.
• Band y Royal Penrhyn, Bethesda, yn arwain gorymdaith Gorsedd y Beirdd yn Llandudno.
• Codi Ficerdy Eglwys Glanogwen.

## Dyma ddetholiad bach o englynion tymhorol gan y bardd T. Arfon Williams

**Nadolig**
Er llawenydd i'r llinach, i feudy
o fyd fe ddaeth bellach
Y Duw byw yn blentyn bach
Na welir ei anwylach.

**Ymson Mair**
Heno datgelwyd i minnau paham
Y mae pen y bryniau
Oll yn oll yn llawenhau, -
Mae'r achos yn fy mreichiau.

**Wrth y Crud**
Mor fwyn ydyw'r wên ar wyneb em Duw;
Mae'n dalp o anwyldeb,
Yn gariad er nad oes neb
Yn brysio at ei breseb.



# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**
**'LLENWI'R CWPAN'**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

## Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

7.00 o'r gloch Nos Lun 13 Ionawr 2014
yn Festri Capel Jerusalem

**Wyn Bowen Harris**
'William Bulkely o'r Brynddu"
Dyddiaduron 1690 i 1751

£1.50 wrth y drws
neu am ddim i aelodau

**Canolfan Cefnfaes**
**BETHESDA**
## GYRFA CHWIST

Ionawr 14 a 28
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

## Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10am - 2pm

**Ionawr 11eg**
**Yn y Clwb Rygbi, Bethesda**

**Chwefror 8ed**
**Yn y Clwb Rygbi, Bethesda**

**Bwydydd, Crefftau, Caffi**

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Twitter #marchnadogwen**
**Facebook**

## Rhag-hysbysiad

**Swydd Rheolwr Neuadd Ogwen**

Yn cael ei hailhysbysebu yn genedlaethol ddechrau Ionawr. Bydd yr hysbyseb yn y prif bapurau a bydd gwybodaeth ar www.lleol.net

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

| Paned a Sgwrs | Peint a Sgwrs |
|---|---|
| Caffi Fitzpatrick | Douglas Arms |
| Bethesda | Bethesda |
| 11.00 – 12.00 | 20.00 – 21.00 |
| Dydd Sadwrn cyntaf pob mis | Trydydd Nos Lun pob mis |

**I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â**

**Neville Hughes**
**☎ 600853**

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd ☎ 601415**
**Neville Hughes ☎ 600853**

**Canolfan Cefnfaes**
**Bore Coffi Cylch Meithrin Cefnfaes**

25 Ionawr 2014
10.00 - 12.00

## Clwb Criced a Bowlio BETHESDA

Lôn Newydd, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT

ClwbCricedBethesda (01248) 600833 CricedBethesdaCricket@outlook.com

**Lleoliad Gwych ar gyfer Pob Achlysur**

Cyfleusterau gwych ar gael i fudiadau, cymdeithasau a thrigolion.

Partïon, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs, Digwyddiadau, Cynadleddau, Priodasau a llawer mwy.....

I logi'r clwb ar gyfer unrhyw achlysur galwch i mewn, ffoniwch neu e-bostiwch,

**Oriau Agor Presennol**

Dydd Sul: 8pm i 12am
Dydd Llun: Ar Gais
Dydd Mawrth: Ar Gais
Dydd Mercher: Ar Gais
Dydd Iau: 8pm i 12am
Dydd Gwener: 7am i 12am
Dydd Sadwrn: 7pm i 12am

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer llogi'r clwb

Cyfleusterau: 3 ystafell fawr / 2 far / Llwyfan / Cegin, gyda chyfarpar / Digon o le parcio / Snwcer, Pŵl, Dartiau

I glywed mwy am ddigwyddiadau a chynigion y clwb a chael eich ychwanegu at gylchrediad e-byst y Clwb, e-bostiwch: CricedBethesdaCricket@outlook.com

**Sengl Newydd Dan Amor**

# Y Ci

Allan rwan
Recordiau Cae Gwyn

**A ydych yn hoff o gŵn?**

Cận am gi, i gŵn. Sengl newydd Dan Amor iw lawrlwytho, 'YCi' (Recordiau Cae Gwyn).

Elw i gyd yn mynd i Loches Anifeiliaid Eryri, Capel Garmon. Cymysgwyd a recordwyd gan John Lawrence yn Stiwdio Nant y Benglog, meistroli gan Geraint Jones, Ninja Sound.

Allan rŵan fel lawrlwythiad digidol. Ar gael yn unig gan recordiaucaegwyn.com

www.recordiaucaegwyn.com

# Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2013 - Canlyniadau

## Y Prif Gystadlaethau Llenyddol



**Gareth Evans Jones, Marianglas, Môn, Enillydd y Fedal Ryddiaith.**
**Cefin Roberts, Bangor, Enillydd y Gadair.**
**Bethan Hughes, Enillydd Medal yr Ifanc.**

## Yr Adran Celf a Chrefft

**1. Bl. 3 a 4: Pedair cacen fach wedi eu haddurno**
1af Elin Morris, Penybryn
2ail Lois Angharad, Penybryn
3ydd Siôn Lewis, Penybryn

**2. Bl. 5 a 6: Pedair cacen fach wedi ei hardduno.**
1af Elin Owen,Ysgol Penybryn
2ail Seren Harris, Ysgol Bodfeurig
3ydd Ellie Jones, Ysgol Penybryn

**4. Ysgol Feithrin, yn seiliedig ar thema'r dosbarth.**
1af Ysgol Llanllechid
2ail Clwb Abercaseg
3ydd Ysgol Cenfaes

**5. Adran Babanod, yn seiliedig ar thema'r dosbarth.**
1af Ysgol Llanllechid
2ail Ysgol Abercaseg
3ydd Ysgol Tregarth

**6. Adran Iau, yn seiliedig ar thema'r dosbarth.**
1af Ysgol Penybryn
2ail Ysgol Penybryn
3ydd Ysgol Llanllechid

**7. Bl.3: Gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth.**
1af Ayla, Ysgol Llanllechid
2ail Ela Dafydd Jones, Tregarth
3ydd Hanna Durrant, Llanllechid

**8. Bl.4: Gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Cushla Luxton, Tregarth
2ail Sophie Griffiths, Llanllechid
3ydd Megan Gashe, Llanllechid

**9. Bl.5: Gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Elin Owen, Penybryn
2ail Aran Jones, Ysgol Tregarth

**10. Bl.6: Gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Gwydion Rhys, Llanllechid
2ail Bess Tranton Llanllechid
3ydd Guto Whiteheap, Llanllechid

**11. Oedran Meithrin: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Keyan Foulkes, Abercaseg
2ail Owain Williams, Abercaseg
3ydd Tomos Davies, Llanllechid

**12. Dosbarth Derbyn: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Lloer Gwilym, Abercaseg
2ail Freda–Jean Politt, Llanllechid
3ydd Lowri Owen

**13. Bl.1: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Ruby Davies, Abercaseg
2ail Jac Sullivan Griffiths, Abercaseg
3ydd Twm Rowlands, Abercaseg

**14. Bl. 2: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Beca Jordan, Llanllechid
2ail Ffion Meredith, Llanllechid
3ydd Rebecca Burley, Llanllechid

**15. Bl.3: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Lleu Jones, Penybryn
2ail Mia Haf Evans, Penybryn
3ydd Heidi Lewis, Bodfeurig

**16. Bl.4: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Llion Williams, Llanllechid
2ail Ella Vickers, Tregarth
3ydd Tia Vickers, Tregarth

**17. Bl.5: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Esme Sethi, Llanllechid
2ail Natalie Owen,. Penybryn
3ydd Lottie Sunfield, Llanllechid

**18. Bl.6: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Dyddgu Jones, Penybryn
2ail Sam Dignam, Llanllechid
3ydd Llinos Mary, Llanllechid

**19. Bl.7,8 a 9: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Gwilym Tossell, YDO
2ail Solomon Eagles, YDO
3ydd Chloe Hill, YDO
Rhys Peall, YDO

**20. Ysgolion Cynradd: 4 ffotograff yn adlewyrchu Dyffryn Ogwen**
1af Tanwen Hails, Tregarth
2ail Ioan Emptaye, Tregarth
3ydd Siôn Lewis, Penybryn

**22. Ysgolion Cynradd: Un cerdyn cyfarch**
1af Louis Hadfields, Tregarth
2ail Tara Stephen, Penybryn
3ydd Jack Roberts, Tregarth

**24. Bl.3: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Katie Creek, Tregarth

25. Bl.4: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth
1af Nicole Roberts, Tregarth
2ail Ella Lois Evans, Penybryn
3ydd Gethin Jones, Tregarth

**26. Bl.5: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Erin Harney, Llanllechid 2ail JackHughes, Llanllechid
3ydd Esme Sethin, Llanllechid

**27. Bl.6 : Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth**
1af Cerwyn Roberts, Llanllechid
2ail Maija Giddings, Tregarth
3ydd Brandon Roberts, Llanllechid

**28. Blwyddyn 2**
**'Os gwelwch chi'n dda ga'i deisen'.** 1af Rhiannon Elfyn Roberts, Abercaseg
Hannah Hughes, Abercaseg
2ail Elin Owen, Abercaseg
Oliver Menichino, Abercaseg
3ydd Elsie Owen, Llanllechid

**29.Blynyddoedd 3 a 4 'Ych!'Molchi'.**
1af Sara Ford, Penybryn
2ail Tolay Cash, Bodfeurig
3ydd Ioan Emptage, Tregarth

**30. Blynyddoedd 5 a 6: 'Llaw'**
1af Ellie Jones, Penybryn
2ail Dyddgu Glyn Jones, Penybryn
3ydd Huck Blodwell, Tregarth

**32. Dros 18 oed, Unrhyw ddilledyn** 1af Pat Hamilton
2ail Jean Thomas

**33. Celf**
1af Dwylo Prysur

**34. Ffotograffiaeth**
1af M. Roberts

**Gwobr Arbennig**
Noah Roberts, Llandegai

## Canlyniadau Nos Wener

**Unawd Lleisiol:**
1af – Glesni Fflur -Pen y Groes
2il – Heulen Cynfal - Parc, Bala
Cydradd 3ydd – Gerallt Rhys Jones - Machynlleth a Bethan Elin Owen - Trefor, Ynys Môn

**Unawd Offerynnol**
**(yn cynnwys piano):**
1af – Gwenno Roberts - Abergwyngregyn
2il – Gwenno Morgan - Bangor
3ydd – Mabon Jones - Bethesda Bach

**Côr Cymysg/Meibion/Merched:**
1af – Côr Hŷn Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Côr Meibion Y Penrhyn
Cydradd 3ydd – Côr Dros y Bont a Côr Aelwyn John Morris Jones

**Llefaru Unigol**
1af - Bethan Elin Wyn Owen - Trefor, Ynys Môn
2il - Emyr Jones - Bontnewydd
Cydradd 3ydd - Heulen Cynfal - Parc, Bala a Lowri Morgan -Caernarfon

**Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd**
1af – Côr Ysgol Dyffryn Ogwen (Bl.7-11)
2il – Côr Iau Ysgol Dyffryn Ogwen

## Canlyniadau Llenyddol

**Enillydd y Gadair:**
Cefin Roberts - Bangor

**Enillydd y Fedal Ryddiaith:**
Gareth Evans Jones - Marian Glas, Ynys Môn

**Enillydd Medal yr Ifanc:**
1af - Bethan Hughes - Bl.12
Ysgol Dyffryn Ogwen
2il - Mari Davies - Bl.12
Ysgol Dyffryn Ogwen

## Llên yr Ifanc

**Blynyddoedd 7-9:**
1af – Martha Evans - Bl.9
Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Elen Wyn - Bl.9
Ysgol Dyffryn Ogwen
Cydradd 3ydd – Buddug Roberts - Bl.9 a Lois Ashton - Bl.8 Ysgol Dyffryn Ogwen

**Blynyddoedd 10-11:**
1af – Rhiannon Llwyd - Bl.10
Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Luke Crowe - Bl.10
Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd – Alys Haf - Bl.11
Ysgol Dyffryn Ogwen



**Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau : Efa Glain – Ysgol Llanllechid – 1af.**



**Dyddgu Jones - Ysgol Pen y Bryn. Enillydd Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol**

## Canlyniadau dydd Sadwrn

**Llefaru Meithrin.**
1af – Elin Thomas - Ysgol Abercaseg
2il – Gruffydd Beech
3ydd – Mattia D'Amora - Ysgol Abercaseg

**Unawd Meithrin.**
1af – Gwenno Llwyd Beech – Ysgol Llanllechid
2il – Mattia D'Amora – Ysgol Abercaseg
3ydd –Menna Chan – Ysgol Abercaseg

**Llefaru Derbyn.**
1af – Seren Mai Roberts - Ysgol Llanllechid
2ail - Ned - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd - Dwynwen - Ysgol Abercaseg a Tomos Owen Jones - Ysgol Llanllechid

**Unawd Derbyn.**
1af – Dwynwen - Ysgol Abercaseg
2il – Esther Parry - Ysgol Tregarth
Cydradd 3ydd – Ruby Grace - Ysgol Abercaseg a Beca Fflur - Ysgol Abercaseg

**Llefaru Blwyddyn 1.**
1af – Eli Roberts - Ysgol Abercaseg
2il – Cara Leone - Ysgol Abercaseg
3ydd – Jac Griffiths - Ysgol Abercaseg

**Unawd Blwyddyn 1.**
1af – Mari Watcyn Roberts - Ysgol Llanllechid
2il – Mia Williams - Ysgol Llanllechid
3ydd – Sienna D'Amora - Ysgol Abercaseg

**Llefaru Blwyddyn 2.**
1af -Wil Davies - Ysgol Abercaseg
2il – Llinos Roberts -Ysgol Abercaseg
3ydd – Cian McCloud - Ysgol Llanllechid

**Unawd Blwyddyn 2.**
1af – Lois Haf -Ysgol Llanllechid
2il – Doris Roberts - Ysgol Bodfeurig
3ydd – Rhiannon Elfyn - Ysgol Abercaseg

**Llefaru Blynyddoedd 3 a 4.**
1af – Adam John Williams - Ysgol Llanllechid
(Cwpan Coffa Grace Williams)
2il – Mared Morris - Ysgol Llanllechid
3ydd - Erin Fflur – Ysgol Llanllechid

**Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Dyddgu Jones
2il – Gwydion
3ydd – Luned Elfyn

**Unawd Blynyddoedd 3 a 4.**
1af – Mari Bullock - Ysgol Llanllechid
2il – William Roberts - Ysgol Llanllechid
3ydd - Efa Glain - Ysgol Llanllechid

**Llefaru Blynyddoedd 5 a 6**
1af – Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
2il – Elin Roberts - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Mali Rhys Williams a Elis Evans - Ysgol Llanllechid

**Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
2il – Swyn - Ysgol Llanllechid
3ydd – Mari - Ysgol Llanllechid

**Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Efa Glain - Ysgol Llanllechid

**Unawd Blynyddoedd 5 a 6.**
1af – Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
2il – Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Bo Celyn - Ysgol Llanllechid

**Parti Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau.**
1af - Ysgol Pen y Bryn

**Parti Llefaru Ysgol Gynradd.**
1af – Ysgol Pen y Bryn
2il – Ysgol Llanllechid

**Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
2ail - Michael Cook - Ysgol Bodfeurig
3ydd – Lleucu Robertsa Dyddgu Jones - Ysgol Pen y Bryn

**Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau**
1af - Dyddgu Jones - Ysgol Pen y Bryn
2ail - Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
3ydd -Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn

**Grŵp Offerynnol Blwyddyn**
1af - Ysgol Bodfeurig
2il - Ysgol Llanllechid
3ydd -Ysgol Tregarth

**Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Parti Pen y Bryn 3
2il – Parti Llanllechid
Cydradd 3ydd – Parti Pen y Bryn 1 a Parti Pen y Bryn 2

**Côr Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Ysgol Llanllechid
2il – Ysgol Pen y Bryn
3ydd - Ysgol Tregarth

**Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau**
1af -Ysgol Llanllechid

**Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru**
Seren Mai Roberts - Ysgol Llanllechid

**Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol**
Dyddgu Jones - Ysgol Pen y Bryn

**Llenyddiaeth**
**Ysgolion Cynradd y Dalgylch**
**Stori**
1af – Elin Wyn Davies, Bl.6
Ysgol Llanllechid
2il – Seren Bassinger, Bl.6
Ysgol Llanllechid
3ydd – Gwydion Rhys, Bl.6
Ysgol Llanllechid

**Cerdd**
1af – Bess Tranter, Bl.6
Ysgol Llanllechid
2il – Brandon Roberts, Bl.6 –
Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Dafydd Roberts, Bl.6 Ysgol Llanllechid a Gwydion Rhys, Bl.6 Ysgol Llanllechid.



**Beirniaid dydd Sadwrn wrth eu gwaith (o'r chwith): Marged Esli, Deilwen Hughes a Siôn Elwyn.**



**Y Ddawns Flodau – Disgyblion Ysgol Pen y bryn.**



**Llefaru Blynyddoedd 5 a 6 : (o'r chwith)
Luned Elfyn – Ysgol Pen y Bryn – 1af.
Mali Rhys Williams – Ysgol llanllechid – cydradd 3ydd.
Elin Roberts – Ysgol Llanllechid – 2il.**



**Parti Llefaru Ysgol Llanllechid – 2il.**



**Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau : (o'r chwith) Meical Cook – Ysgol Bodfeurig – 2il Dyddgu Jones – Ysgol Pen y Bryn – cydradd 3ydd Gwydion Rhys – Ysgol Llanllechid – 1af Lleucu Roberts – Ysgol Pen y Bryn – cydradd 3ydd**





**Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac Iau :(o'r chwith) Mari (3ydd), Swyn (2il), Gwydion Rhys (1af) Y tri o Ysgol Llanllechid.**
**(1af) Y tri o Ysgol Llanllechid.**



**Llefaru Blwyddyn 1 : (o'r chwith)
Cara Leone – Ysgol Abercaseg – 2il.
Eli Roberts – Ysgol Abercaseg – 1af.
Jac Griffiths – Ysgol Abercaseg – 3ydd.**



**Unawd Blwyddyn 2 : (o'r chwith)
Luned Elfyn ar ran ei chwaer, Rhiannon – Ysgol Abercaseg – 3ydd.
Doris Roberts – Ysgol Bodfeurig – 2il.**



**Parti Llefaru Ysgol Pen y Bryn – 1af.**



**Parti Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau Ysgol Pen y Bryn – 1af.**



**Unawd Derbyn : (o'r chwith)
Beca Fflur - Ysgol Abercaseg – cydradd 3ydd. Esther Parry – Ysgol Tregarth – 2il.
Dwynwen – Ysgol Abercaseg – 1af.**



**Unawd Blynyddoedd 3 a 4 : (o'r chwith)
Efa Glain – Ysgol Llanllechid – 3ydd.
Mari Bullock – Ysgol Llanllechid – 1af.**



**Unawd Blwyddyn 1 : (o'r chwith)
Sienna D'Amora – Ysgol Abercaseg – 3ydd.
Mari Watcyn Roberts – Ysgol Llanllechid – 1af. Mia Williams – Ysgol Llanllechid – 2il.**

 Llais Ogwan 16

# Nyth y Gân

**Rhyfel yn Syria 2013**

Mae'r plant yn wylo heb na mam na thad
A'r bomiau a'r gynnau yn darnio eu gwlad,
Eu cartrefi'n awr yno'n lludw llwyd
A phob un mewn ofn â gwir angen bwyd.
Gwêl yno ôl gwaed a staeniodd sawl stryd
A lifodd mor rhad ond ar gost mor ddrud.
Cawn famau a phlant yn mynd law yn llaw
Yn gwasgu pecynnau gan lusgo drwy'r baw.
Gorfodwyd y cyfan i adael eu bro
I wersylloedd llawn at y miloedd ar ffo.
Mae'r byd i gyd â'i lygaid ar hyn
Gan wir obeithio y daw cwmwl gwyn
A heulwen eto i ddangos ei gwedd
Fel y bydd eu hyfory eto'n llawn hedd.

**Tŷ Haf**

Roedd llawer mwy o gariad
  Na chyfoeth dan ei do,
A chroeso cynnes roddai
  Ei aelwyd lân bob tro.

Hen gath a gana'i grwndi
  Yn belen wrth y tân,
A nico yn ei gawell
  Yn llenwi'r tŷ â'i gân.

A llenwi'r tŷ â'u hogla',
  A hwnnw'n ogla' iach,
Bob tro ar ddiwrnod pobi
  Wnâi'r bara popty bach.

Mae bynglo yno heddiw
Heb fwg uwch ben ei do,
Un hardd ond eto'n oeraidd
Â'i ddrws ar gau bob tro.

**Dafydd Morris**

**Cenedl Gaeth**

Annedd yw'n hetifeddiaeth oludog,
  A gwlad yw'n treftadaeth;
Ond cenedl fo'n genedl gaeth
A rwygir o'i thiriogaeth.

**Goronwy Wyn Owen**

## CHWILAIR MIS RHAGFYR 2013
## Y Nadolig

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **D** | **R** | **A** | **M** | **A** | **R** | **G** | **E** | **N** | **I** | A | A | W | F | H | R | I | E | J | L |
| C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H |
| M | D | W | H | U | S | I | O | N | C | O | R | N | Z | M | X | V | G | A | D |
| D | G | N | A | P | A | U | Q | U | A | S | O | F | R | P | Y | I | Q | Z | G |
| R | H | E | C | E | L | Y | N | C | C | N | U | M | W | N | L | O | Y | R | I |
| A | S | Z | N | U | T | F | D | R | X | U | G | P | W | O | R | H | C | Q | H |
| W | E | H | O | I | Y | E | U | E | G | E | O | Y | D | M | H | E | P | T | T |
| C | B | B | C | U | R | D | U | J | P | L | T | A | L | M | I | V | V | D | C |
| B | B | F | R | F | O | I | G | J | V | I | N | I | R | I | R | X | I | M | H |
| T | T | O | S | K | O | P | E | W | R | H | C | M | K | C | O | B | O | R | C |
| X | V | R | Y | H | S | T | M | S | T | R | E | F | Y | J | D | N | Z | H | B |
| C | W | O | S | C | R | A | I | E | U | X | N | I | L | X | J | J | M | B | W |
| T | E | X | M | D | X | K | A | F | U | P | C | Q | Y | O | U | I | L | F | E |
| R | Z | Q | R | O | C | N | T | D | G | W | S | L | Z | E | A | B | E | A | J |
| K | J | C | L | N | A | L | R | V | O | G | J | P | I | W | I | P | G | S | O |
| W | J | J | Q | S | U | C | H | E | L | W | Y | D | D | C | D | U | L | F | S |
| V | T | X | A | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | R | I | W | T | Z |
| H | K | W | V | A | G | A | N | R | H | E | G | I | O | N | A | W | B | N | K |
| A | G | D | S | I | D | O | E | T | H | I | O | N | K | O | C | G | T | D | H |
| B | S | I | U | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | T |

Y mis yma mae nifer o faterion cysylltiedig â'r NADOLIG i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi  ddarganfod y gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH), acyb yn un  llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn 3 Ionawr. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r rhif agosaf  fydd yn cael y wobr.

Nid oedd chwilair mis Tachwedd yn un da iawn. 'Rwyf wedi cael sawl un yn dweud nad oeddynt yn gallu cael hyd i'r holl atebion, ac  roedd hyn yn wir gan fod un llinell wedi ei adael allan o'r chwilair. Ugain sgwar wrth ugain sydd i fod, ond pedwar ar pymtheg wrth ugain oedd yn un mis Tachwedd, ar ben hyn i gyd unarddeg ateb oedd ynddo y tro diwethaf, ond nid oeddwn wedi eich rhybuddio o hyn. Fy mai i oedd y llithriad yna. Dyna beth sydd yn digwydd wrth adael pethau tan y munud olaf ynte! Gobeithio cewch hwyl gyda'r chwilair dros y Nadolig. Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi, a holl ddarllenwyr y Llais.

Nid oedd chwilair mis Tachwedd yn un da iawn. 'Rwyf wedi cael sawl un yn dweud nad oeddynt yn gallu cael hyd i'r holl atebion, ac  roedd hyn yn wir gan fod un llinell wedi ei adael allan o'r chwilair. Ugain sgwar wrth ugain sydd i fod, ond pedwar ar pymtheg wrth ugain oedd yn un mis Tachwedd, ar ben hyn i gyd unarddeg ateb oedd ynddo y tro diwethaf, ond nid oeddwn wedi eich rhybuddio o hyn. Fy mai i oedd y llithriad yna. Dyna beth sydd yn digwydd wrth adael pethau tan y munud olaf ynte! Gobeithio cewch hwyl gyda'r chwilair dros y Nadolig. Dymunaf  Nadolig  Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi, a holl ddarllenwyr y Llais.

**Dyma atebion Tachwedd.** Abba fe'th addolwn (emyn 53) Bydd gyda ni, O Iesu da (812) Canaf yn y bore (118) Daeth eto fore Saboth (25) Duw a wnaeth y byd (141) Mi glywaf dyner lais (483) Molwch ar yr utgorn (57) Tua Bethlem dref (468) Tydi sy'n deffro'r adar (78) Un fendith dyro im (164) Wel dyma hyfryd fan (36).

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.** Rosemary Williams, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Doris Shaw, Bango; Herbert Griffiths, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda.

**Enillydd Tachwedd oedd** Mrs G. Clark, Ffynnon Wen, Tregarth, LL57 4AF.

## Digon yw digon meddai trigolion Bethesda am broblemau baw ci

Mae trigolion Bethesda wedi penderfynu mai digon yw digon a bod yr amser wedi dod ar gyfer enwi'r perchnogion cwn anghyfrifol rheini sy'n gwrthod glanhau ar ôl eu hanifeiliaid.

Meddai Fflur Roberts, sy'n fam i ddwy o ferched ifanc: "Rydan ni wedi cael llond bol ar weld baw ci ar ein llwybrau a'n palmentydd ac rydym yn barod i adrodd am ymddygiad afiach o'r fath i Wardeiniaid Stryd y Cyngor."

Dywedodd y Cynghorydd Ann Williams, sy'n cynrychioli ward Ogwen Bethesda ar Gyngor Gwynedd: "Er gwaethaf yr holl waith caled sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â phroblem baw cŵn yng Ngwynedd, mae'n ymddangos fod rhai perchnogion cŵn yn malio dim. Yn fuan, bydd unrhyw un sy'n gwrthod glanhau ar ôl eu cŵn ym Methesda yn sylweddoli bod y gymuned gyfan yn gwylio - ac yn barod iawn i adrodd am eu hymddygiad anghyfrifol. Does dim esgus, mae'r Cyngor yn darparu bagiau rhad ac am ddim ar gyfer perchnogion cŵn, yr oll sydd angen iddynt ei wneud ydi gofyn amdanynt gan y Cyngor."

Ychwanegodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd: "Rwy'n ddiolchgar i'r mwyafrif llethol o berchnogion cŵn sy'n glanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes ac sy'n cael gwared â gwastraff yn ofalus. Ond yn anffodus, nid yw pawb yn dilyn y cyngor "bagio, clymu ac i'r bin". Does dim esgus o gwbl dros fethu â rhoi'r baw mewn bag, ei glymu a'i roi mewn bin, achos gall berchnogion cŵn Gwynedd waredu eu bagiau wedi'u clymu mewn unrhyw bin gwastraff cwn, unrhyw fin sbwriel ar y stryd, neu yn eu bin olwyn gwyrdd eu hunain.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cynghori y dylai bagiau baw ci fod yn fioddiraddadwy. Mae pecynnau dal bagiau baw cŵn Trefi Taclus yn dal i fod ar gael yn rhad ac am ddim yn eich Siop Gwynedd leol.

Taclo'r tacle? Mae sawl ffordd i roi gwybod am droseddwr rheoli cŵn yn gwbl gyfrinachol - dros y ffôn ar 01766 771000, drwy e-bostio rheolicwn@gwynedd.gov.uk, neu ar-lein drwy fynd i www.gwynedd.gov.uk/rheolicwn. Gallwch hefyd roi gwybod am broblemau baw cŵn i'ch Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol.

Llais Ogwan 17

# OWEN'S TREGARTH

**Cludiant Preifat a Bws Mini**



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

**01248 602260**
**07761619475**



**www.owenswales.co.uk**

---

**JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.**

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
**01248 601754**
07770 568743 (symudol)

CITB

---

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

---

# Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni

**DEWCH I WELD EICH CYFREITHIWR LLEOL**

**SGWÂR BUDDUG**
**STRYD FAWR**
**BETHESDA**
**GWYNEDD**
**LL57 3AG**

☎
**BETHESDA**
**01248 600171**
**torg@hotmail.co.uk**

## Cyfreithwyr

**Y CYNGOR CYNTAF AM DDIM**

**EWYLLYSIAU A PHROFIANT**

**SYMUD TŶ**

---

# MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
**A. Ll. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**
**♦TEIARS A BATRIS♦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

---

**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

---

*Bryan Jones*

*Clirio tai*
*Mân-weithiau*
*Cludiant ysgafn*

*(Waeth pa mor fychan y dasg)*
Ffôn: 01286 673121
Ffôn Lôn: 07527634023



e-bost: bryanrajonesandson@yahoo.co.uk
www.facebook.com/bryanrajonesandson

---

## Malinda Hayward
**(Gwniadwraig)**

**Awel Deg**
**Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo**
**- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch**
**01248 601164**

---

**BARBWR OGWEN**

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

---

Contractwyr Trydanol

## Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

constructionline NICEIC ECA CHAS

---

## YSGOL YRRU

**DerfeL**

**07982 076 455**
**01248 605 325**

derfelowen@sky.com Haulfryn - Llanllechid

## FY NAIN A'I BRODYR A'I CHWIORYDD

Er mai ym Mraichtalog, Tregarth, y maged fi gyda rhieni maeth, yr hyn sydd yn dilyn yw ychydig bach o hanes fy nain ar ochr fy niweddar fam o waed. Doedd gan fy nain grybwylliedig ddim cysylltiad gyda Thregarth ond bu un o'i brodyr hi'n is-athro yn ysgol y pentref ar un adeg yn y gorffennol a bydd ei hanes ef yn ymddangos yn rhifyn nesaf Llais Ogwan.

Roedd gan fy nain ar ochr fy niweddar fam o waed ddwy chwaer a oedd yn hŷn na hi a dau frawd ac un chwaer a oedd yn iau na hi. Enw chwaer hynaf un fy nain oedd Elizabeth Williams a aned yn y flwyddyn 1881. Nyrs ydoedd wrth ei galwedigaeth ac fe ymfudodd hi'n gynnar yn ei bywyd i Seland Newydd gan ymgilio i ddinodedd wedi hynny.

Eunice Williams a ddaeth ar ôl Elizabeth. Fe'i ganed hi'n y flwyddyn 1883 ond, ychydig o flynyddoedd wedi hynny, fe osododd y gelyn glas ei wermod yng nghwpan y teulu oblegid bu farw Eunice ym mlodau'i dyddiau un ai o ryw gyflwr corfforol neu anhwylder anwelladwy  a hithau ond yn 9 oed a theg yw tybio bod ei thrancedigaeth anamserol hi wedi ysgwyd pob aelod o'i thylwyth.

Fy nain a ddilynodd Eunice. Ei henw hi oedd Maggie Jones Williams ac fe'i ganed yn y flwyddyn 1886. Bu'n athrawes plant bach yn Ysgol Troed yr Allt, Pwllheli, am chwe blynedd rhwng y blynyddoedd 1906 a 1912. Roedd hi'n  ugain oed pan ddechreuodd hi ddysgu'n yr ysgol. Ymbriododd hi gyda naddwr cerrig o Heyside, Manceinion, yn eglwys Pedr Sant, Pwllheli, ar y 24ain. o Ragfyr 1912. Roedd hi'n chwech ar hugain oed ar y pryd ond roedd ei gŵr dair blynedd yn hŷn na hi. Rhoddwyd fy nain i ffwrdd gan ei brawd a gafodd ei eni ar ei hôl hi. Ei enw ef oedd Lewys Jones Williams. Ei gwas priodas oedd ei brawd a aned ar ôl Lewys. Ei enw ef oedd David Larsing Williams. Ychydig wedi i'r ddefod briodasol ddod i ben, fe ymadawodd y ddeuddyn dedwydd am Lerpwl a Manceinion i fwynhau eu mis mêl.

Yn unol â gofynion cyfreithiol y cyfnod, gorfu i Maggie Jones Williams roi'r gorau i'w swydd fel athrawes yn Ysgol Troed yr Allt, Pwllheli, wedi iddi ymbriodi ac fe wnaeth hynny'n ffurfiol ar y 31ain o Ionawr 1913. Wythnos union yn ddiweddarach fe anrhegwyd hi gyda phâr o ganhwyllbrennau arian gan staff yr ysgol ar achlysur ei hymddiswyddiad o'i gwaith fel athrawes yno. Rywbryd neu'i gilydd wedi hynny, fe symudodd Maggie Jones Williams a'i gŵr i Fanceinion lle bu'r ddau ohonynt yn cadw tafarn datws am gyfnod. Fe brynodd Maggie Jones Williams a'i gŵr dyddyn o'r enw Hafod Garegog yng Nghlwt y Bont, Deiniolen yn 1926 gyda'u henillion o'r siop yn Manceinion lle'r oeddent yn gwerthu sglodion tatws i aelodau o'r cyhoedd a ddeuai i'w siop oblegid bod chwant bwyd arnynt. Erbyn hynny roedd y ddeuddyn wedi cael chwech o blant ond roeddent wedi colli brawd-efaill eu cyntafanedig blentyn adeg ei eni ef yn ogystal â'u hailanedig blentyn yn 2½ oed.

Yn nhrefn ddilyniannol eu genedigaeth yn dechrau gyda'r cyntafanedig, enwau bedydd eu plant oedd: Harry (a enillodd anrhydeddau milwrol am ei ddewrder adeg yr Ail Ryfel Byd), Richard (brawd-efaill Harry a fu farw tra'n cael ei eni), Lewis (a fu farw'n 2½ oed), Naureen (fy mam), Ernest a Clifford. Wrth reswm, Richardson oedd cyfenw bob un ohonynt.

Anafwyd  gŵr Maggie Jones Williams yn ddifrifol yn un o'i freichiau adeg y Rhyfel Mawr ac fe ddaeth ef yn rhannol fethedig oblegid hynny ond gallai naddu cerrig yn eithaf deheuig wedi'r digwyddiad er gwaethaf ei anfantais. Yn ystod ei oriau hamdden yn Hafod Garegog byddai'n bridio ieir prin ac yn ysgrifennu erthyglau amdanynt a gafodd eu cyhoeddi mewn cylchgronau arbennigol ar gyfer pobl â diddordeb yn y maes. Deallaf nad oedd Harry Richardson yn boblogaidd ymhlith trigolion Clwt-y-Bont a Deiniolen a hynny'n bennaf oblegid mai Sais ydoedd ond roedd rhai ohonynt hefyd yn genfigennus ohonno oherwydd ei fod yn garn o arian yn eu tyb nhw. Roedd yn ddisgyblwr llym na allai oddef pobl hanner call a dwl.

Roedd Maggie Jones Williams, fy nain, yn wahanol iawn i Harry Richardson, fy nhaid. Fe'i perchid hi'n fawr iawn gan bawb yn Nghlwt y Bont a Deiniolen. Roedd hi'n boblogaidd ac yn aelod blaenllaw o Eglwys Llandinorwig ac hefyd y gangen leol o Sefydliad y Merched. Hoffai ddarllen ac roedd ganddi gasgliad mawr o lyfrau. Ei hoff bwnc hi oedd economeg. Dynes eiddil ydoedd ac fe ddioddefodd lawer o ran ei hiechyd yn ystod blynyddoedd olaf ei hoes. Roedd ganddi galon wan a bu farw ar ddydd Llun yr 11eg. o Fehefin 1951 wedi gwaeledd byr ac fe'i claddwydd ym Mynwent Penrhos, Pwllheli, y Sadwrn canlynol. Roedd yn 63 oed. Yn 1952 fe roddwyd gweddillion marwol ei gŵr hefyd dan gaead arch ac fe gafodd yntau ei ddaearu ychydig ddyddiau'n ddiweddarach ym meddrod ei ddiweddar wraig ym Mhenrhos.

Ysywaeth, roedd wedi dechrau yfed yn drwm erbyn diwedd ei oes ac fe gafodd hynny effaith angeuol arno ymhen dim o amser. Roedd yn 69 oed.

**Dafydd Llewelyn - gynt o Dregarth**

# Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen



Dei Thomas oedd y darlithydd gwadd yng nghyfarfod Tachwedd a gynhaliwyd yn Festri Jerusalem ar yr 11eg.  Ei destun oedd "Awyr Las i'w Harloesi" – Teithwyr Cynnar Eryri, ac yn ộl y disgwyl  roedd y cyflwyniad yn rhwydd ac yn ddiddorol dros ben. Yn y llun uchod gwelir ef yn sgwrsio ậ dau aelod o'r gynulleidfa niferus a ddaeth i wrando arno.

## Taith o Amgylch y Fro
### gydag Arwyn Oliver




**Taith 7 : Llawr y Dyffryn**

Gyda llwybrau'n eithaf gwlyb y dyddiau yma dyma feddwl am daith fyddai'n cael gwared ar galorïau'r Nadolig gan ddilyn rhan helaeth o'r Lôn Las.

Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf a cherdded heibio tai Lôn Sarnau, ffatri G L Jones, a dilyn y llwybr i gyfeiriad Pont Sarnau.

Peidio croesi'r bont ond yn hytrach dilyn y Lôn Las newydd rhwng Afon Ogwen a'r caeau rygbi. Ar ôl mynd trwy nifer o giatiau, byddwch yn cerdded wrth ochr yr A5 i gyfeiriad Bryn Bela. Daw'r llwybr a chwi allan ger hen Felin Coetmor. Trowch i'r dde, croesi Pont Coetmor, a dilyn y ffordd i fyny am groesffordd Hen Dyrpeg.

Troi i'r chwith ar y lôn gefn gan gerdded heibio tai Hen Durnpike a Rhes Fron Ogwen. Ymhen tua 5 munud, mae fferm Ty'n Clwt ar y chwith.

Ymlaen heibio tai Tanysgafell a phasio'r Stad Ddiwydiannol.Troi ar y dde i fyny at weithdai'r Felin Fawr. Mae'r Lôn Las wedi ei harwyddo'n glir yma.

Cadw ar y Lôn Las gan fynd o dan y bont i gyfeiriad tomennydd y chwarel. Mae'r llwybr yn dilyn godre'r tomennydd ac ymhen tua 20 munud, fe ddaw a chwi allan ar y lôn sy'n arwain i'r chwarel.

Troi i'r chwith i lawr y lôn chwarel i gyfeiriad Pont y Tŵr. Peidio croesi'r bont a chadw i'r chwith eto ar y lôn gefn gan basio hen ysgol Ty'n Tŵr (bellach yn dai). Ymlaen am tua 8 munud, byddwch yn cyrraedd bythynnod Grisiau Cochion.

Wedi cyrraedd y bwthyn olaf ar y chwith (rhif 1), troi i'r dde i lawr llwybr Pont Ring. Aiff y llwybr a chi trwy Barc Meurig. Cadw i'r dde gyda'r crawiau llechi, trwy giât haearn a heibio'r cae chwarae. Croesi Pont Ring ac yn ôl i Stryd Fawr Bethesda. Troi i'r chwith i lawr y stryd yn ôl i Feddygfa'r Hen Orsaf.

**Pellter :** Bron yn 4 milltir
**Amser :** Rhyw awr a thri chwarter
**Math o daith :** Eithaf gwastad a llwybrau da
**Offer :** Esgidiau cerdded addas a chwydd wydr!!!! (i weld y map)

**Mwynhewch a Nadolig Llawen**

Caban Cysgu
**Beiciau i'w llogi**



**Am fwy o wybodaeth Cysylltwch ar 01248 605573**

**SAMARIAID**
Mae
**Llinell Gymraeg**
**0300 123 3011**
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

*Blodau Racca*
PENISARWAUN
*Planhigion gardd a basgedi crog o'r ansawdd gorau*
*- gan hogan o Rachub*
*Ffôn: 01286 870605*

**WU SHU KWAN**
**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**
**Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30**
**Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi**
♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
**Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth**

MODURON PANDY Cyf.
**Tregarth**
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.
**Ffôn: 01248 600619 (dydd)**

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
**01248 361044 a 07771 634195**



Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Modurdy Central**
**Ceir ail-law ar werth**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

**Blodau Hyfryd**
7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (*gyda'r nos* 602767)
***Blodau ar gyfer pob achlysur***
**Priodasau, Angladdau ayyb**
**Ffres a Sidan**
*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

**Cerbydau Penrhyn**
**CABIAU A BYSIAU MINI**
**Ffôn: (01248) 600072**
**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd**
**Contractau**
**Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru**

**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**
**A.G.L.** Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**Elwyn Jones & Co**
**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd**
**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
***Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol***
***Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar***
Lexcel
***Swyddfeydd eraill:***
*Llangefni (01248) 723106*
*Amlwch (01407) 831777*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000)*

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**Ffacs: 602571**
**lsturrs@googlemail.com**

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**
**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â**
**Mantell Gwynedd**
- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271




## O 'Tŷ Ni'

Dwi'n siŵr bod holl  blant Dyffryn Ogwen yn ardderchog o dda ac yn aros yn eiddgar am Siôn Corn! Ond, ni fuasai Siôn Corn yn gallu dod ag anrhegion i dŷ neb heb yr anifail rhyfeddol hwnnw - y carw.

Dyma i chi anifail! Mae'r math o garw fel y rhai sydd gan Siôn Corn yn byw yn y gwyllt mewn grwpiau mawr iawn yn y gogledd oer oer sef Lapland. Maen nhw yn anifeiliaid symudol - yn wir gallant drafaelio dros 5,000 o gilomedrau i chwilio am fwyd. Maen nhw yn pori ac yn bwyta cen cerrig y rhan amlaf. Mae ganddynt garnau mawr cryf sy'n eu galluogi i dyrchu mewn tir oer rhewllyd am eu bwyd a chôt ffwr drwchus sy'n hanfodol yn y rhew a'r eira. O holl anifeiliaid y tir, dyma'r un sydd fwyaf effeithiol o ran cadw a defnyddio ynni.

Y Sami yw enw'r bobl sy'n dibynnu yn llwyr ar y ceirw i fyw. Mae'r carw yn rhoi cig, llefrith a ffwr i wneud dillad iddynt. Tybir fod tua 3,000,000 o geirw yn cael eu dofi a'u 'ffermio' yng ngogledd gwledydd Norwy, Sweden, Rwsia a'r Ffindir heddiw.

Un peth rhyfeddol am y ceirw yw'r cyrn enfawr sydd ganddynt. Maent yn diosg y cyrn bob blwyddyn ac yn tyfu rhai newydd yn eu lle. Mae corn carw yn tyfu yn rhyfeddol o sydyn - tua 2 centimedr y dydd! Dyma'r unig fath o garw benywaidd sydd gyda chyrn. Maent yn llai na rhai'r gwryw ond yn eithaf mawr! A dyma i chi damaid i gnoi cil - rydan ni wedi clywed am Rwdolff y carw trwyngoch, a fo oedd carw pwysicaf Siôn Corn. Yn wir nid 'fo' ddylai fod ond 'hi'! Mae ceirw gwrywaidd yn colli eu cyrn ar ddechrau'r gaeaf a'r rhai benywaidd yn colli eu cyrn hwy yn y gwanwyn cyn geni'r rhai bach. Felly mae'n debyg mai ceirw benywaidd sydd gyda chyrn adeg y Nadolig!

Oes ganddoch chi syniad am enw newydd i Rwdolff?

**Nadolig Llawen iawn i chi i gyd.**

## O 'Tŷ Chi'

Dyma rysáit am fins peis gwahanol gan Angharad Huws, Bethesda
Mae'r rysáit yn gwneud tua dwsin o fins peis a bydd angen 350g / 12 owns o grwst brau (short crust)

Y llenwad -
25g / 1 owns o siocled du wedi ei falu'n fân (neu baced o siocled sydd eisoes yn giwbiau mân)
125g / 4 owns o ffrwythau sych cymysg
25g / 1 owns o geirios sych a'u torri yn fân
3 llwy fwrdd o farmalêd
1/2 afal wedi ei gratio
1 llwy de o sbeis cymysg
1 llwy fwrdd o sieri melys

Cymysgwch y cyfan yn dda. Gellir defnyddio'r gymysgfa yn syth neu ei orchuddio a'i gadw mewn oergell am tuag wythnos.
I wneud y danteithion -
Rhowch y popty ymlaen ar wres o 190 C (ffan 170 C), neu farc 5 mewn popty nwy.
Rholiwch y toes ar fwrdd gydag ychydig o flawd arno i drwch o 3mm (1/8 o fodfedd)
Torrwch 12 cylch yn y toes a'u gosod yn y tun coginio peis
Rhannwch y llenwad rhwng y cacennau
Gyda thorrwr siâp seren, torrwch 12 siâp i roi ar dop y mins peis
I gael lliw a sglein, brwsiwch y toes gydag wy wedi ei guro

Coginiwch am 12 - 15 munud nes eu bod o liw euraidd.
Gadewch yn y tun am tua 3 munud ac yna eu trosglwyddo ar rac i oeri ychydig
Wedi gwasgaru ychydig o siwgr eisin drostynt - mwynhewch!

Diolch yn fawr Angharad.

**Cysylltwch â Mrs. J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN neu jan@erwlas.freeserve.co.uk.**

# Croesair Rhagfyr 2013

**AR DRAWS**
1 Ces air am y peli bach gwyn. Tywydd gaeafol fel arfer (7)
5 I'ch goleuo am y tywydd efallai (4)
7 Gallu (5)
8 Mair a Joseff wedi cyrraedd Bethlehem (6)
10 Mae calon lân yn decach na hon (4)
11 Mae'r doethion yn chwilio am y baban Iesu, '-------- Frenin Nef' (8)
13 Llond safn (6)
14 Mae llawer ohono mewn pantomeim amser y Nadolig (6)
17 Dim ond dwy ohonynt sy'n sôn am 'Y Geni' (8)
19 Humphreys (nofelydd); Lewis (bardd); Wyn (actor); Llywelyn (ymgyrchydd) (4)
21 'Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid -- ---- yn y maes' (2,4)
22 Offeryn crefyddol tybed (5)
23 Mae'n datgan harddwch Eira Wen yn y pantomeim (4)
24 Wrth oedi a sefyllian mi fedrwch golli'r tren ola (7)

**I LAWR**
1 Dau o anifeiliaid stori'r geni (5,2,3)
2 Yr Ŵyl, – nid gola i'ch drysu (7)
3 Amser y clywch chi 22 Ar Draws yn wythnosol (1,3)
4 Rhaid mynd i ffwrdd i gael da yn ei ganol (6)
5 'Fferins o'r hosan, Neu gyflaith y Calan' (8)
6 Dymuniad Mair a Joseff wedi cyrraedd Bethlehem (5)
9 Doethion (1,3,6)
12 Adloniant ac amser da (8)
15 Am fod Edward bach yn smocio, fedra i ei ganmol ? (7)
16 Plesar cymysg wrth agor pecyn (6)
18 Canodd gân Nadoligaidd 'Eira Cynnes' (2007) (5)
20 Amser y Plygain (4)

**ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2013**

**AR DRAWS** 1 Hylltra, 4 Agos, 8 Annwyl, 9 Awyren, 10 Diogi, 11 Ffantasi, 13 Stop 15 Eco, 16 Llipa, 18 Llofnodi, 20 Maesu, 23 Ffefryn, 24 Afallon, 25 Alma, 26 Chwalfa

**I LAWR** 1 Henaint, 2 Llewyg, 3 Rali, 5 Gwyntyll, 6 Sbens, 7 Paratoi, 12 Pendant, 14 Pendrwm, 17 Pysgota, 19 Ofera, 21 Anaml, 22 Galw

Dim ond un ateb a achosodd benbleth, sef y gair tafodiaethol 'sbens' am dwll dan grisia'. Cafwyd 'sters' yn gynnig anghywir.

Wel dyma ni ar drothwy'r Nadolig unwaith eto, a diolch i rai ohonoch am eich cyfarchion. Mae ychydig o liw tymhorol ar groesair y mis hwn. Dymuniadau gorau i chi dros yr Ŵyl, gan obeithio y gwelwn chi eto yn y flwyddyn newydd.

Y canlynol a anfonodd atebion hollol gywir y tro hwn; da iawn chi : E.E.Roberts, Llanberis; Gareth William Jones, Bow Street; Dilys A.Pritchard-Jones, Abererch; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Rosemary Williams, Sara a Gareth Oliver, Dulcie Roberts; Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys Parry, Rhiwlas; Rita Bullock, Bethesda; Doris Shaw, Bangor.

Mae'r wobr yn mynd i'r enw cyntaf o'r het, sef cynnig Ellen Whitehouse, 21 Antringham Gardens, Edgbaston, Birmingham, B15 3QL. Llongyfarchiadau calonnog i chi.



Atebion erbyn dydd Mercher, 1 Ionawr 2014 i:
'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

## Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar 26 Tachwedd yng Nghanolfan y Cefnfaes.

Derbyniwyd aelod newydd arall i'r Gangen yn ystod y mis, ac mae'r gwaith o gasglu tâl aelodaeth 2014 yn mynd yn ei flaen yn dda.
Bu rhai aelodau o'r Gangen yn Ysgol Aeaf Plaid Cymru a gynhaliwyd yng Nglanllyn, a bu eraill yn ymgyrchu ar foreau Sadwrn gyda Hywel Williams A.S.

Un o'r prif bynciau a drafodwyd eto oedd y sbwriel a adewir tu allan i rai fflatiau ar Stryd Fawr, Bethesda, gan wneud i'r lle edrych yn fler iawn, iawn. Bu'r Cynghorydd Ann Williams ynglŷn â'r mater eisoes. Penderfynwyd bod y Gangen hefyd yn anfon at adrannau arbennig yng Nghyngor Gwynedd i gwyno ymhellach, gan ofyn am sylwadau ac awgrymiadau ar sut i ddatrys y broblem sy'n ddolur llygad i drigolion ein hardal.

Testun brafiach oedd gweld bod giat wedi ei gosod ar Ffordd Bangor er mwyn cerdded y llwybr sy'n ymuno â Lon Lâs Ogwen ger glannau'r afon.

Yn ei gylchlythyr misol, Yr Hanes, gan Hywel Williams A.S., tynnwyd ein sylw ei fod wedi llythyru â'r adran Waith a Phensiynau yn ogystal â'r Canghellor ynglŷn â thaliadau tanwydd mewn tywydd oer. Mae'r llywodraeth yn talu £25 yr wythnos os yw'r tymheredd yn disgyn i 0 gradd am gyfnod o 7 diwrnod, ond cesglir y data tywydd ar gyfer mannau fel Dyffryn Ogwen ar Ynys Môn sydd yn llawer uwch eu thymheredd. Cawn wybod am yr atebion a dderbynir ganddo.
Ydych chi'n trydar? Na nid canu fel cana'r aderyn, ond cysylltu â phobl drwy drydar ar y wê. Wel, os hoffech ddilyn Cangen Dyffryn Ogwen o Blaid Cymru mae modd ichi drydar erbyn hyn. Beth am i chi fod yn ddilynwr! Mae gan Blaid Cymru a Hywel Williams A.S. hefyd dudalennau ar y gweplyfr.

Ni chynhelir cyfarfod o'r Gangen fis Rhagfyr. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Ionawr yn yr un man. Croeso i'n holl aelodau.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar nos Calan Gaeaf aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod ym mwyty Pier Bangor i wrando ar Rachel Reeves, Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol Adran Gwaith a Phensiynau San Steffan, gan fwynhau rhywbeth i'w fwyta hefyd. Ymhlith pethau eraill, tynnwyd sylw at y gostyngiad yn safon byw y werin dan y llywodraeth glymbleidiol yn Llundain.

Yna ar ddechrau mis Tachwedd, aeth cynrychiolwyr y gangen i gyfarfod Pwyllgor Gwaith Arfon ym Methel i ymdrin â materion mewnol yr etholaeth, ac yna gosodwyd torch ar gofgolofn Bethesda ar Sul y Cofio.

Tua chanol y mis bu Alun Pugh (darpar ymgeisydd seneddol Llafur) yn galw o ddrws i ddrws ym Methesda. Bu Alun yn weinidog dros chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn ystod ei amser yng Nghynulliad Cymru.

Ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes. Trist oedd clywed am farwolaeth aelodau ffyddlon yn ddiweddar ond da oedd clywed am aelodau newydd. Ymhlith pethau eraill, cafwyd adroddiad am waith Cyngor Gwynedd (e.e. y bwriad i ddirwyo rhieni plant hŷn am fynd â nhw ar wyliau yn ystod amser ysgol) a'r cynghorau cymunedol.

### DYFODOL I'R GYMRU GYMRAEG

Ddiwedd Hydref eleni cyhoeddwyd llyfr pwysig sy'n trin a thrafod ein hagwedd a'n hymwneud â chenedligrwydd ac iaith. Enw'r llyfr ydi *Pa beth yr aethoch allan i'w achub?*

Ysgrifau ydyn nhw gan amrywiol wladgarwyr sydd, yn ôl y clawr, i "gynorthwyo'r gwrthsafiad yn erbyn dadfeiliad y Gymru Gymraeg".
Y golygyddion ydi Simon Brooks a Richard Glyn Roberts, a bydd y ddau yn rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfod yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai ddydd Sadwrn, 18 Ionawr. Bydd y cyfarfod o ll tan 3, ac yn ogystal â'r cyflwyniadau, bydd cynnal trafodaeth ar rai o'r pynciau a drafodir yn y llyfr, yn arbennig mater dwyieithrwydd a'i ganlyniadau difaol.

Gofynnir i bawb ddod â bwyd efo nhw, ond bydd paned am ddim amser cinio yn y Neuadd gerllaw.

Dylai'r digwyddiad pwysig yma fod o ddiddordeb i bob Cymro a Chymraes sy'n dymuno gweld dyfodol i'n hiaith.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: **post@camwrthgam.co.uk**

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Marchnad Ogwen



**Dyma Stondin Popeth Neis a'i pherchennog Michelle Roberts**

Er ei bod yn anodd credu wrth edrych ar y Stondin yma, sebon ydi cynnyrch Popeth Neis. Mae'r sebon yn lliwgar ac yn cael ei werthu mewn nifer o wahanol ffurf a siâp.

Mae Michelle wedi dechrau cynhyrchu sebon ers tua blwyddyn bellach - ychydig yn ei chartref ar y dechrau i deulu a ffrindiau. Erbyn hyn, mae sebon o bob lliw a llun ganddi.

Yn gyntaf, mae'n cael bloc mawr o sebon sy'n cynnwys olew llysiau a glyserin. Mae'n toddi'r bloc ac wedyn yn ychwanegu gwahanol liwiau, peraroglau a'r olew angenrheidiol sydd mewn sebonau. Yna, mae'r toddiant yn cael ei dywallt i wahanol fowldiau i galedu ac yna mae'r sebonau yn cael eu pacio yn ddeniadol ar gyfer y cwsmer.

Mae gan Michelle sebon ar ffurf cacen myrang lemwn ac 'roedd un wraig yn methu deall pam fod cacen ar werth ynghanol sebon! Mae ôl dannedd plentyn ar sebon cacen mefus gan ei fod wedi meddwl cael tamaid bach o "gacen" ar y slei!

Erbyn hyn mae'r sebonau yn werth eu gweld a'r persawr yn hyfryd. Maent ar gael yn siop Tŷ Golchi erbyn hyn yn ogystal â'r Farchnad bob mis wrth gwrs.

**Newyddion Marchnad Ogwen**
Cynhelir y Farchnad nesaf 1 Ionawr yn y Clwb Rygbi. Croeso cynnes. Mae'r Farchnad wedi ennill Marc Siarter Cynaliadwyedd Busnes gan Brifysgol Bangor - sy'n bluen sicr yn ein het! Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y Marc Siarter yma. Ydi, mae'r Farchnad yn llwyddo ac yn gartref i 18 Stondin, a Stondin Elusen bob mis. Mae'r Caffi gyda pherchennog newydd o hyn ymlaen, felly cyfle am baned a sgwrs.

Cylch Meithrin Cefnfaes fydd y cynnal y Stondin Elusen ym mis Ionawr. (Mis Ebrill ar gael)
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Marchnad Ogwen yn Y Douglas Arms, Ionawr 14eg am 7.00 o'r gloch. Croeso.
Gellir cysylltu â ni ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk neu Facebook a Twitter.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl gwsmeriaid y Farchnad a diolch am ein cefnogi.

## Llyfr Newydd gan Hogyn o Ddyffryn Ogwen




Mae Dafydd Thomas, sydd bellach yn byw ym Mangor, wedi bod wrthi'n sgwennu geiriau caneuon ers blynyddoedd. Mae amryw ohonynt, dros 40 yn wir, wedi cael eu recordio gan artistiaid fel Môn Heli, John ac Alun, Iona ac Andy, a Wil Tân.

O'r diwedd, mae Dafydd wedi penderfynu casglu'r gweddill o'i ganeuon a'u cyhoeddi – 80 yn Gymraeg a 15 yn Saesneg. Geiriau yn unig sydd yma – a fydd yn siwr o apelio at ddilynwyr Canu Gwlad. Cyhoeddir y llyfr gan Dafydd Thomas o dan y teitl Geiriau (Lyrics).

Ei bris yw £5.99. Gallwch archebu ar y wefan www.dafyddthomas.co.uk

# Côr Meibion y Penrhyn

**Cywiriad**
Yn y rhifyn diwethaf adroddwyd bod y noson yng nghwmni John Ogwen gyda'r côr yn cymryd rhan ynddi i fod i gael ei darlledu ar yr un noson y recordiwyd hi. Camargraff oedd hynny ac yn awr deallwn na fydd y rhaglen yn cael ei darlledu tan Nos Sadwrn y 4ydd o Ionawr. Mae Gwyn Hughes Jones y tenor rhyngwladol adnabyddus o Fôn yn cymryd rhan yn y rhaglen hefyd. Ymddiheurwn os cafodd unrhyw un ei gamarwain ymghylch dyddiad y darllediad .

**Cystadlu**
Ar ôl cynnwrf y gêm rygbi yn Stadiwm y Mileniwm a'r ymweliad â'r stiwdio recordio ym Mae Caerdydd daeth yr aelodau adref i ail ymafael yn yr ymarferion er mwyn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar Nos Wener y 15fed o Dachwedd. Y tro hwn daeth y côr yn ail i Gôr Ysgol Dyffryn Ogwen a llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol am eu llwyddiant. Mae'n braf gweld bod dyfodol i ganu corawl yn y dyffryn ac efallai maes o law y daw rhai o'r bobl ifanc hyn yn aelodau o Gôr Meibion y Penrhyn. Hei lwc yn wir!

**Carolau ag ati.**
Gyda'r Nadolig o'n blaenau byddwn yn barod i berfformio mewn nifer o leoedd i godi arian at achosion da. Yn y gorffennol codwyd arian at yr ambiwlans awyr ymhlith elusennau teilwng eraill a gobeithiwn wneud rhywbeth tebyg eto eleni gyda pherfformiadau wrth ddrws Tesco ym Mangor ac yn Llys Dafydd a Phlas Ogwen ym Methesda. Hefyd, daeth gwahoddiad diweddar i'r côr gymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig yn Theatr Gogledd Cymru, Llandudno gyda nifer o artistiaid enwog a chyfarwydd eraill yn cymryd rhan.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau a chyfeillion Côr y Penrhyn ac i holl ddarllenwyr papurau bro'r cylch

# O'r Cyngor

## Cyngor Pentir

Yn eu cyfarfod ar 14 Tachwedd mynegodd y cynghorwyr eu pryder nad oedd sefyllfa plismona yn ardal Penrhosgarnedd wedi gwella er gwaethaf addewid swyddog o'r Heddlu rai misoedd yn ôl. Penderfynwyd ceisio cynnal cyfarfod eto gyda'r plismon/es sydd ạ chyfrifoldeb am yr ardal.

Mynegwyd siom eto fod cyn lleied o gymdeithasau lleol wedi gwneud cais am nawdd oddi wrth y Cyngor. Nodwyd y byddid yn aros tan gyfarfod mis Ionawr i weld faint fydd wedi cysylltu.

Nodwyd fod angen gwaith cynnal a chadw yn Neuadd Glasinfryn ac y byddid yn gofyn am brisiau er mwyn mynd ymlaen a'r gwaith.

## Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair.

Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â bws i'r plant o gyfeiriad Talybont i Ysgol Llandygái a disgwylir ymateb oddi wrth y Cyngor Sir parthed trafnidiaeth a diogelwch plant o gwmpas Ysgol Bodfeurig.

Bydd llwybr rhif 56 o Lôn Cefn Tŷ tuag at y Clwb Criced yn cael ei gau dros dro nes cwblheir y gwaith yno.

Bu'r cadeirydd, y Cynghorydd Dafydd Owen, y Cynghorwyr D.V. Jones a Rhys Llwyd, ynghŷd â'r Clerc, mewn cyfarfod ar y safle gerllaw yr hen orsaf gyda swyddog o'r Cyngor Sir, mewn ymgais i gael cysgodfan bws.

Byddir yn cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd gan fod angen ail-leoli gylïau yn ardal Sling fel y gallant glirio dŵr wyneb yn fwy effeithiol a hefyd oherwydd llifogydd sy'n parhau ar Lôn Hermon, Mynydd Llandygái.

Copa

**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

**Bethesda 600094**
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal “cut throat”)

**DAFYDD CADWALADR**

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

**01248 605207**

**Pob math o waith trydanol**

**Huw Jones**

**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**

**Y Douglas Arms**

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
**Oriau Agor**
**Llun – Gwener: 6.00 - 11.00**
**Sadwrn: 3.30 – 12.00**
**Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00**
**01248 600219**
**www.douglas-arms-bethesda**
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

**CAFFI COED Y BRENIN**
**1 Rhes Buddug, Bethesda**

**Ffôn: 01248 602550**

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
***(mewn awyrgylch cyfeillgar)***

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i’w gario allan**

**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer**
**partïon o bob math -**
**plant, pen-blwydd ac ati**
***(yn y caffi neu mewn lle o’ch dewis chi)***

**Cacennau ar gyfer pob achlysur**
**e.e. priodas neu ben-blwydd**

**Prisiau rhesymol**

**BISTRO’R BRENIN**
**(Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

**LONDIS**
**BETHESDA**

☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus**
**Gwasanaeth personol**
**gyda’r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**
**7 diwrnod yr wythnos**

STEPHEN
JONES
†
TREFNYDD
ANGLADDAU

**Hefyd ymgymryd**
**â gwaith cerrig beddi:**
**adnewyddu neu o’r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda
Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

**Gwasanaeth personol ddydd a nos**

**JOHN ROBERTS**



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**C.L. JONES**

**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

Mynytho 01758 730768
LLanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru**



Bu côr yr ysgol yn cystadlu yng Ngŵyl Gorawl Gogledd Cymru ar yr 8fed o Dachwedd. Roedd hwyliau da ymysg yr aelodau i gyd ac roedd pawb yn edrych ymlaen at brofiad newydd yn Venue Cymru, Llandudno. Roedd y côr yn cystadlu yn y categori ysgolion uwchradd ac ar ôl gweithdy lleisiol i gynhesu i fyny yn y bore roedd tri chôr arall yn perfformio gyntaf, sef Ysgol y Creuddyn, Ysgol Rydal ac Ysgol Dinas Brân. Rhaglen côr Ysgol Dyffryn Ogwen oedd 'Tair Cân Hwngaraidd', 'Dal fy Llaw' a 'Byd yn Un'. Dyma ychydig o sylwadau gan y beirniaid Trystan Lewis, Mari Pritchard a Cefin Roberts –

'Côr o leisiau glân a chydsymud da'. 'Hoffais yr arddull - canu gydag asbri a phawb o ddifri. Roeddech yn amlwg yn mwynhau'r darn yma'. 'Dehongliad a rhaglen o safon uchel.' Pwysleisiodd y beirniaid fod hi'n anodd tu hwnt gwahaniaethu rhwng y wobr gyntaf a'r ail ond 'o drwch blewyn lleiaf posibl' rhoddwyd yr ail wobr i Ysgol Dyffryn Ogwen gyda Ysgol Dinas Brân yn gyntaf. Roedd holl aelodau'r côr yn hapus iawn ac yn hynod falch o'u perfformiad. Da iawn chi!

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau mawr i holl ddisgyblion yr ysgol a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Yr oedd dau gôr o'r ysgol yn cystadlu yn y gystadleuaeth *Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd* gyda'r côr Iau yn agor y noson a rhaglen Gymreig yn cynnwys 'Dwi'n Gymro, Dwi'n Gymraes', 'Suo Gân' gyda Cadi Rhys ac Efa Williams yn unawdwyr, ac yn gorffen drwy rapio a chanu i'r gân 'Canwn yn Glir'. Roedd eu perfformiad yn frwdfrydig a safonol gyda phawb yn edrych yn drawiadol yn eu crysau coch Cymru. Fodd bynnag, wythnos ar ôl cipio'r ail wobr yng Ngŵyl Gorawl Gogledd Cymru, y côr hŷn gyda disgyblion o flwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11 enillodd y wobr gyntaf gyda'u rhaglen oedd yn cynnwys 'Tair Cân Hwngaraidd', 'Dal fy Llaw' (trefniant gospel gwefreiddiol o'r gan adnabyddus 'Lean On Me') a 'Byd yn Un' ('World in Union'). Cafodd y perfformiad gryn effaith ar y beirniad ac ar y gynulleidfa. Da iawn chi i gyd.

Cynhesu wnaeth pethau wedyn gyda Chôr Cymysg Hŷn Ysgol Dyffryn Ogwen, gydag aelodau o staff yn ymuno â disgyblion o flwyddyn 10 ac 11 i gystadlu yn y brif gystadleuaeth gorawl. Y côr yma oedd yr olaf i berfformio o bedwar côr ac yn dilyn mawrion Côr aelwyd JMJ, Côr Dros y Bont a Chôr Meibion y Penrhyn. Syfrdanol oedd y perfformiad ac yng ngeiriau'r beirniad, Huw Foulkes, roedd disgyblaeth a sain glir a chynnes y côr, yn enwedig gan y bechgyn, yn arbennig. Cafwyd bloedd o lawenydd wrth i'r côr gael y wobr gyntaf. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Iago Davies, Cadi Rhys a Math Owen a fu'n cystadlu ar y cystadlaethau unigol gan berfformio yn raenus. Llongyfarchiadau mawr i Bethan Hughes o'r Chweched Dosbarth a enillodd Dlws yr Ifanc, gyda Mari Davies yn cael yr ail wobr.Eleni eto Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yn gyfrifol am yr orsedd ar gyfer y Brif Seremoni; yr oedd graen ac urddas ar eu gwaith - yn arbennig felly'r ddau archdderwydd, Rhiannon Llwyd a Manon Hughes. Diolch i Mr Dafydd Roberts a Miss Jeni Lyn Morris am fod yng ngofal y seremoni. r ysgol yn ymfalchïo yn eich llwyddiannau ac yn y ffordd yr oedd pawb yn cynrychioli'r ysgol mewn ffordd aeddfed a phroffesiynol. Da iawn chi!

**Ymweliad Bl 6**
Bu 84 o ddisgyblion blwyddyn 6 o ysgolion cynradd y dalgylch yma am ddiwrnod cyfan yn cael blas ar ddiwrnod yn yr ysgol uwchradd. Cawsant ddiwrnod llawn a phrysur a oedd yn cynnwys gwersi Gwyddoniaeth, Celf, Saesneg a TGCh. Gobeithio y bydd pob un yn heidio yma i Ysgol Dyffryn Ogwen!



**Taith Caerdydd**



Bu holl fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru blwyddyn 12 ar daith i Gaerdydd ar Dachwedd 14eg-15fed. Prif bwrpas yr ymweliad oedd gwella eu dealltwriaeth o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, pwy sy'n ein cynrychioli a pha feysydd sydd wedi eu datganoli. Cawsant chwarae rôl Aelod Cynulliad trwy gymryd rhan mewn dadl yn Siambr Hywel (hen siambr y cynulliad) ar y testun, "A ydyw yn gynaliadwy i'r Cynulliad barhau i dalu ffioedd myfyrwyr sydd yn dewis astudio mewn Prifysgolion tu allan i Gymru". Yn ogystal cawsant gyfle i gyfarfod a holi Alun Ffred Jones wrth iddo eu tywys o amgylch y Brif Siambr.

Cafwyd cyfle hefyd i fynd ar daith o amgylch Stadiwm y Mileniwm gan weld y cyfleusterau arbennig sy'n cuddio yng nghrombil yr adeilad cyn manteisio ar y cyfle i ymweld â siop neu ddwy. Ar y ffordd adref ymwelwyd ag Amgueddfa Pwll Mawr, Safle Treftadaeth Byd; profiad hynod o gael cip ar fywyd a chaledi gwaith y glöwr dros y degawdau.

**'Operation Christmas Child'**
Unwaith eto eleni paratôdd disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen lu o focsys i'w hanfon at 'Operation Christmas Child'. Diolch yn arbennig i ddosbarth 12 Glyder am drefnu'r casglu fel rhan o'u gwaith gwirfoddoli ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

**BAC – Blwyddyn 12 ac 13**

Cyflwynodd grŵp o'r chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Ogwen dasg 'Gweithio Gydag Eraill' fel rhan o'u cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Penderfynodd rhai o enethod dosbarth 12 Ffrancon baratoi a chynnal Disgo Gwisg Ffansi Calan Gaeaf ar gyfer blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr ardal yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Pen y Bryn, Ysgol Rhiwlas, Ysgol Bodfeurig, Ysgol Llanllechid ac Ysgol Tregarth.

Roedd y neuadd llawn addurniadau a goleuadau, sydd yn rhedeg gyda'r thema Calan Gaeaf. Cafodd y plant ddawnsio, chwarae gemau, dylunio baent gwyneb a siawns i brynu diodydd, jeli, cacennau, creision a llawer mwy. Roedd y noson yn llwyddiant a gwnaed elw tuag at elusen ac i gronfa chweched dosbarth.

## Ysgol Abercaseg

**Techniquest.**
Yn fuan wedi gwyliau hanner tymor bu dosbarth Ffrancon, Ogwen a Ffrydlas am drip hwyliog i ganolfan ddarganfod gwyddoniaeth Techniquest yn Wrecsam. Cawsant nifer o brofiadau gwyddonol diddorol, ac roedd y peiriant arbrofi â chysgodion yn boblogaidd iawn gan bawb. Cafwyd diwrnod addysgol a chofiadwy.



**Archifdy Caernarfon.**



Braf oedd croesawu Gwenda Williams atom o Archifdy Caernarfon. Daeth a nifer fawr o hen deganau efo hi a chafodd y disgyblion gyfle i weld dros eu hunain beth sy'n wahanol rhwng ein teganau ni heddiw a theganau'r gorffennol. Bu'r plant hefyd yn holi a thrafod sut yr oedd teganau ers talwm yn gweithio ac o ba ddefnyddiau y'u gwnaed.

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau mawr i'r holl disgyblion a fu wrthi yn ddiwyd yn paratoi ar gyfer yr eisteddfod eleni. Cafodd yr ysgol eisteddfod hynod o lwyddiannus gyda nifer o ddisgyblion yn dod i'r brig yn y cystadlaethau gwaith cartref yn ogystal a'r rhai llwyfan. Da iawn bawb.

**Cwmni'r Frân Wen**
Bu'r ysgol yn ffodus iawn yn ddiweddar o gael ei dewis yn un o ddwy ysgol ymhlith holl ysgolion Gwynedd, Môn a Chonwy i gydweithio â Chwmni'r Frân

Wen ar brosiect celfyddydol cyffrous iawn. Treuliwyd dau fore difyr yn chwarae rôl gyda'r actorion ac yn creu gwaith celf amrywiol gyda Luned Rhys Parri. Mae yna hen edrych ymlaen am fwy o ymweliadau ar ôl y Nadolig ac i'r plant weld eu holl syniadau yn 'Y Cwpwrdd Dillad', sef cynhyrchiad theatrig nesaf y cwmni.

**Operation Christmas Child**
Braf yw cael dweud fod y disgyblion unwaith eto wedi bod yn hael iawn yn cyfrannu i brosiect Operation Christmas Child. Daeth nifer fawr o focsys lliwgar i'r ysgol yn barod i'w cludo i wahanol rannau o'r byd. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y prosiect, ac mae'r ysgol yn falch y bydd Nadolig sawl plentyn yn gyfoethocach eleni o ganlyniad i haelioni disgyblion Ysgol Abercaseg.

**Ymgyrch 'Wish List' y Daily Post**
Diolch i berthnasau disgyblion yr ysgol a thrigolion Bethesda a fu wrthi'n ddiwyd yn casglu 'tocynnau' o'r Daily Post i'r ysgol dros yr wythnosau diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr.

# Ysgol Rhiwlas

Oherwydd problemau technolegol (ebyst ddim yn cyrraedd eu nod ac yn y blaen) dyma'r adroddiad cyntaf ers dau fis o Ysgol Rhiwlas, ac am ddau fis prysur a fu yma!

**Dewi Pws**
Fel rhan o raglen *Pontio*, bu Dewi Pws draw yn yr ysgol am y bore yn ysgrifennu cerdd hefo'r adran Iau. Cafwyd bore hwyliog iawn yn ei gwmni a bydd y gerdd yn cael ei harddangos yn yr adeilad newydd.

**Agoriad y Chwarelwr**
Cafwyd cynnwrf yn iard yr ysgol gyda rythmau Louisiana yn atsain drwy Rhiwlas ar fore agoriad swyddogol ein mosaic. Diolch i'r Cajun Dembo am yr adloniant ac i Mr John Huw Evans am ei amser a'i eiriau caredig. Mae'r plant yn siwr o gofio'r profiad o weithio o dan arweiniad Ken ac Ann Smith ar y murlun am flynyddoedd i ddod. Diolch hefyd i Wil Williams am ysgrifennu'r gerdd sy'n rhan o'r murlun.

**Croeso**
Croeso atom i Sioned a Katie Davies. Mae'r ddwy wedi ymgartrefu yn dda acw.

**Andrew Settatree**
Roedd y plant yn falch o gael croesawu Mr Settatree unwaith eto ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Bu Mr Settatree yn ein hatgoffa o bwysigrwydd bod yn dda tu fewn. Diolch unwaith eto!

**Cydweithfa Llysiau a Ffrwythau**
Cofiwch am ein cyd-weithfa sy'n agored i bawb yn yr ardal leol - £3 am fag o lysiau, ffrwythau neu salad i gyrraedd yr ysgol ar y dydd Mercher er mwyn casglu'r cynnyrch ar bnawn Gwener. Caiff y gyd-weithfa ei redeg gan y Cyngor Ysgol i hybu bwyta'n iach yn y gymuned felly cefnogwch yn llu.

**Ioga**
Cynhelir sesiynau Ioga yn neuadd yr ysgol ar nosweithiau Llun o 7.00 tan 8.30.

**Cyngor Ysgol**
Cafwyd etholiad eto eleni a chafodd y canlynol eu hethol, Ben, Cai, Erin, Steffan, Holly, Cassie, Sophie, Adah, Mia, Gwawr a Martha. Llongyfarchiadau!

**Ysgol Iach**
Llwyddodd yr ysgol i gael cam 4 yng nghynllun Ysgolion Iach 4 – da iawn chi, a diolch i Mrs Goosey am gydgordio y prosiect.

**Croeso**
Braf yw cael cwmni Lliwen Morris yn yr ysgol. Myfyrwraig o goleg Menai yw Miss Lliwen ac mi fydd acw yn adran y Babanod am ddiwrnod yr wythnos am weddill y tymor. Hefyd Kim Roberts sydd yn gwirfoddoli un diwrnod yr wythnos yn yr ysgol. Yn ystod mamolaeth Mrs Goosey mae Denise Edwards wedi ei phenodi yn athrawes y Cyfnod Sylfaen – croeso mawr i chwi i'n plith!

**Diolchgarwch**
Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Peniel, a braf oedd gweld y capel yn llawn gyda rhieni a ffrindiau wedi dod i gefnogi y plant. Diolch hefyd i Mr Andrew Settatree unwaith eto eleni am fod mor barod i'n helpu.

**Disgo**
Bu tipyn o ddawnsio (a llawer o fwyta !!) yn yr ysgol cyn gwyliau hanner tymor yn y noson ddisgo. Llwyddwyd i godi £89 tuag at yr ysgol – a hynny ddim ond trwy werthu bwyd!! – diolch yn fawr i bawb a helpodd i drefnu y noson – byddwn yn trefnu un arall ar ôl y Nadolig.

**Llongyfarchiadau!!**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Goosey ar enedigaeth merch fach – Cari Fflur. Mae pawb yn edrych ymlaen i'ch gweld!

**Nofio**
Bu llawer o blant yr ysgol yn cystadlu yng Ngala Nofio yr Urdd ym Mangor mis diwethaf – da iawn chi blant rydym yn falch iawn ohonoch.

**John ac Alun**
Roedd Tafarn y Gors Bach yn rocio i rythmau canu gwlad ar 22 Tachwedd gan fod John ac Alun yn cynnal cyngerdd i godi arian tuag at yr ysgol. Gwledd o gerddoriaeth a chefnogi'r ysgol yr un pryd – beth allai fod yn well ! – llwyddwyd i godi £214 tuag at yr ysgol. Diolch hefyd i ASDA Caernarfon am gyfrannu arian tuag at yr noson ac i Carys ac Eirlys am drefnu.

**Dathliadau y Nadolig**
Wel mae'r Nadolig wedi cyrraedd eto ac mae'n gyfnod prysur fel arfer yn Ysgol Rhiwlas! Bu Andrew Settatree yn cynnal gwasanaeth Nadolig a chafwyd cinio Nadolig gwerth chweil – diolch Anti Shân!
Bydd cyngherddau yr ysgol yn cael eu cynnal yn neuadd yr ysgol brynhawn Mawrth y 10fed am 1.30 a nos Fercher ac Iau yr 11eg a'r 12fed am 6. 00 Croeso i chwi gyd ddod, am awr a hanner o hwyl a sbri – cysylltwch a'r ysgol am docynnau!

# Ysgol Bodfeurig




**Cymru Cŵl**
Yn ddiweddar bu'r ysgol yn dathlu wythnos Cymru Cŵl unwaith eto. Mae'r wythnos yma yn llawn brwdfrydedd a gweithgareddau sy'n ceisio rhoi balchder a brwdfrydedd i ddisgyblion am eu hiaith a'u cenedligrwydd.
Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dysgu am ein arwyr Cymraeg o flynyddoedd maith yn ôl megis Owain Glyndŵr a Llywelyn ein Llyw Olaf. I ychwanegu at fwrlwm yr wythnos fe gafodd dosbarth Mrs. Evans eisteddfod, gyda'r babanod yn cystadlu trwy ganu, llefaru a dawnsio gwerin hyd yn oed! Cafodd y dosbarth lawer o hwyl yn ystod yr wythnos ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at y nesaf!

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod.**
Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Eisteddfod flynyddol Dyffryn Ogwen ble roedd rhai o'n plant yn cystadlu er mwyn arddangos eu doniau. Enillodd Heidi Lewis o flwyddyn tri y drydedd wobr am arlunio llun o'i theulu. Cafodd Toby Cash o flwyddyn pedwar yr ail wobr yn y dasg lawysgrifen. Cafodd Meical Cook a Ned Healy y wobr gyntaf ar y deuawd offerynnol. Cafodd Meicial yr ail wobr hefyd am gystadlu yn unigol gyda'i sacsaffon.



**Plant mewn angen**
Y flwyddyn yma cafodd yr ysgol diwrnod 'pyjamas' a gwerthu teisennau er mwyn codi arian i blant mewn angen. Roedd yr athrawon hefyd wedi cymryd rhan yn yr holl hwyl a'u "hunwisg"!
Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dod i'r ysgol wedi gwisgo fyny mewn sbectrwm o liwiau. Fe godwyd £127 o bunnoedd gan yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i'r disgyblion a'u rhieni am eu holl gyfraniadau.

**Siarter Iaith**
Mae'r ysgol erbyn hyn wedi bod yn gweithredu Siarter Iaith Gwynedd ac yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi cael ein achredu gyda'r wobr efydd. Fel rhan o'r gwaith mae pob disgybl yn rhan o'r cynllun 'Camu Tua'r Copa' ble maent yn cyflawni targedau yn yr iaith Gymraeg er mwyn cyrraedd eu nod. Mae'r ysgol yn falch iawn o'r wobr ac ymdrechion y disgyblion i gyrraedd y wobr.

# Ysgol Llandygái

**Ymweliadau Addysgol**
Bu dosbarthiadau yr Adran Iau yn ymweld â Chastell Penrhyn i ddathlu'r Nadolig yn Oes Fictoria. Profiad nerfus iawn oedd cyfarfod â Ledi Penrhyn, a gweithio yn galed fu hanes y plant i lawr yn y gegin. Rydym yn hynod o ffodus fod cyfleoedd gwerthfawr yn cael eu cynnig o fewn tafliad carreg i'r ysgol.

**Ymweliad â Chanolfan Alwen**
Teithio yn bell fu hanes disgyblion Dosbarth 3 a 4 – i Ganolfan Addysg Alwen. Cawsant ddiwrnod hynod o ddiddorol o dan arweiniad Lucy Cowley. Bu'r plant yn gwneud arbrawf i weld pa ddiodydd sydd yn iach i'w hyfed. Hefyd cawsant fwy o wybodaeth ar bwysigrwydd arbed dŵr.

**Ffair Nadolig**
Eto eleni cawsom noson liwgar a hapus yng nghwmni rhieni, staff a ffrindiau'r ysgol. Roedd llawer o stondinau o amgylch yr ysgol yn gwerthu cynnyrch amrywiol, yn cynnwys eitemau oedd wedi eu creu gan y disgyblion eu hunain. Daeth Siôn Corn i ymweld eto eleni a chawsom gwmni dynion tân Gorsaf Bangor. Diolch i bawb fu'n brysur yn cynllunio, yn paratoi ac yn gwario !!

**Plant mewn Angen**
Wel am ddiwrnod prysur a llawn hwyl! Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu diwrnod bythgofiadwy. Daeth pawb i'r ysgol mewn pyjamas a thalu dirwy o £1, roedd stondinau yn gwerthu cacennau a theganau a bu aelodau o staff yn cystadlu yn y *Bake Off*. Disgyblion blwyddyn 6 oedd y beirniaid a llongyfarchiadau i Mrs Williams yr ysgrifenyddes a Gwenno a Gryffudd am gacennau bendigedig.

# Ysgol Llandygái (Parhad)

**Gwisgo Siwmper Nadoligaidd**
Rydym yn edrych ymlaen at wisgo ein siwmperi Nadoligaidd er mwyn cefnogi Elusen Achub y Plant – byddwn yn cyfrannu £1 er mwyn cael cadw ein gwisg ysgol adref.

**Llongyfarchiadau**



Da iawn ti Noah Roberts, Dosbarth Enfys, ar ennill y wobr gelf yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Dyma ei lun yn gwisgo ei fedal.Roedd pawb yn hynod falch o'i lwyddiant.

**Ymweliad yr Esgob**
Braf oedd cael croesawu Esgob Andy a'r parch Robert Townsend atom unwaith eto. Cawsant gyd-addoli gyda disgyblion yr ysgol o dan arweiniad Disgyblion Dosbarth Gwawr – a diolch iddynt am wasanaeth arbennig iawn ac i rai o ddisgyblion yr Adran Iau yn cynorthwyo i ddarllen adnodau o'r Beibl.

**Sioeau Nadolig**
Bydd y ddwy adran yn perfformio sioeau yr wythnos nesaf. Bydd y Cyfnod Sylfaen yn cyflwyno sioe o'r enw Annest yr Angel a'r Adran iau yn cyflwyno Pantdolig. Rydym wrthi yn ymarfer fel fflamia er mwyn sicrhau perfformiadau graenus.

**Naws yr Ŵyl**
Bydd y plant ac aelodau o staff yn cymryd rhan mewn gwasanaeth yn yr Eglwys i ddathlu'r ŵyl. Mae hyn yn gyfle gwych i gofio gwir ystyr y Nadolig.

**Dymunwn Nadolig Llawen Iawn i Rieni, ffrindiau a Thrigolion y Pentref gan edrych ymlaen at Flwyddyn Newydd Dda.**

## Ysgol Pen-y-bryn

**Disgo**
Ar 21 Tachwedd 21 cafwyd disgo'r Urdd hynod lwyddiannus yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch yn fawr i ddisgyblion yr ysgol am weithio mor galed wrth y fynedfa ac yn y siop. Diolch hefyd i'r DJ a'i gerddoriaeth wych. Gwelwyd sgiliau dawnsio diddorol dros ben!

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau gwresog i holl blant yr ysgol am eu llwyddiannau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar 16 Tachwedd. Gwelwyd cystadlu brwd a llwyddiant mawr gyda llefaru, canu, perfformiadau offerynnol, celf, llawysgrifen a choginio. Hoffai'r ysgol longyfarch Dyddgu yn ogystal am gael y Darian 'Perfformiad Cerddorol Gorau'. Diolch yn fawr i'r plant i gyd am gystadlu; rydym yn hynod falch ohonoch. A diolch i chi rieni am y gefnogaeth.

Gwych hefyd oedd dawns flodau genethod blwyddyn 3 ar nos Wener yr Eisteddfod - da iawn chi!!

**Rhannu arfer da**
Cafodd y Grŵp Effeithiolrwydd, Plant Pesda, ymwelwyr o dros y bont ar 29 Tachwedd, pan ddaeth Grŵp Effeithiolrwydd Ysgol Corn Hir, Llangefni i'w gweld. Bu plant y ddwy ysgol yn trafod y gwaith y maent wedi'i wneud hyd yma ac yn rhannu arferion da. Edrychwn ymlaen at gael ymweld ag Ysgol Corn Hir ar ôl y Nadolig er mwyn cael hyd yn oed fwy o syniadau buddiol.

**Noson Rieni**
Yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl ar ôl gwyliau'r hanner tymor, cafwyd nosweithiau rhieni buddiol. Cafodd y rhieni weld gwaith y plant, cyfle i drafod targedau personol y plant a'u marciau yn y profion diweddar. Diolch i bawb a ddaeth.

**Castell Caernarfon**
Aeth plant Glyder ac Elidir i Gastell Caernarfon ar 4 Tachwedd er mwyn dysgu mwy am ei hanes a'i strwythur. Roedd Dilwyn yn wych wrth ein tywys ni o gwmpas y castell gan egluro gwahanol elfennau ac arferion y castell. Yna cafwyd ymweliad â Llanberis i weld Castell Dolbadarn a dysgu am hanes Llywelyn Fawr. Bu'r ymweld yn fuddiol iawn er mwyn gwneud gwaith dosbarth am gestyll Cymru a'r tywysogion a fu.

**PC Dewi Thomas**



Braf oedd cael croesawu PC Dewi Thomas atom unwaith yn rhagor. Daeth i'r ysgol ar 27 Tachwedd er mwyn rhoi sgwrs i'r plant am gyffuriau. Bu'r plant yn gwrando'n astud ar y negesuon pwysig ac roeddent wedi dysgu llawer. Diolch yn ofnadwy i PC Dewi Thomas a brysiwch draw i'n gweld eto'n fuan!

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau mawr i'r rhai a gymerodd ran yng Nghala Nofio'r Urdd ar 16 Tachwedd ac yn enwedig i Rory, Catherine, Ella a Jem am gyrraedd y ffeinal. A diolch yn ofnadwy i Mr Glyn Jones a Ms Delyth Roberts am eu gwaith caled gyda'r criw.

**Swyddog Addysg Parciau Cenedlaethol**



Cafwyd sgwrs ddifyr iawn unwaith eto gan Swyddog Addysg y Parc Cenedalethol, Mr Hywel Williams, am bwysigrwydd gofalu am y Parciau Cenedlaethol. Cafwyd cyflwyniad bywiog a diddorol a hoeliodd sylw'r holl ddisgyblion. Edrychwn ymlaen i'ch gwahodd yma eto yn y dyfodol agos.

## Ysgol Tregarth

**Croesawu**
Croeso cynnes i ddau ddisgybl newydd i'r ysgol, sef Dougal (Dosbarth Derbyn) ac Elen (Blwyddyn 3). Mae'r ddau wedi setlo'n syth ac yn dechrau siarad Cymraeg yn barod! Gobeithio bydd y ddau yn hapus yn ein plith. Rydym hefyd yn croesawu Mrs. Cerys Roberts yn ôl at ddosbarth Ogwen ar ôl cyfnod mamolaeth. Braf iawn fydd cael ei chwmni yn yr ysgol unwaith eto.

**Partneriaeth Gwlad y Basg**
Rydym yn estyn croeso cynnes i Irati o Wlad y Basg atom. Mae Irati yn dilyn cwrs addysg ac yn gobeithio un diwrnod cael bod yn athrawes. Braf yw ei chael hi yn helpu yn y dosbarthiadau, mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu am Wlad y Basg a'r traddodiadau sydd ganddyn nhw.

**Ymweliadau**
Fore dydd Iau, 28 Tachwedd, aeth dosbarth Ffrydlas ar ymweliad gwaith maes i Nant Ffrancon. Yno i'n cyfarfod roedd Guto Roberts, sy'n swyddog Partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Siaradodd Guto am ffurf y dyffryn a'r problemau llifogydd a geir yno a'r achosion am hyn. Cyfeiriodd hefyd at broblemau erydu a'r dulliau o gynnal a chadw'r llwybrau. Braf dweud fod Guto wrth ei fodd â gwybodaeth flaenorol y plant a'r eirfa ddaeardyddol a ddefnyddiwyd ganddynt. Bore diddorol iawn.

Hefyd fel rhan o brosiect y tymor, croesawyd Nest Williams, athrawes ddaearyddiaeth Ysgol Dyffryn Ogwen i ddosbarth Ffrydlas i roi gwers i'r plant ar erydiad. Cafwyd prynhawn diddorol a'r plant yn ymateb yn frwdfrydig. Braf oedd cael ffurfio cysylltiad fel hyn â'r Ysgol Uwchradd, ac eto roedd hithau'n canmol gwybodaeth flaenorol y plant.

Ymwelydd arall a ddaeth i ddosbarth Ffrydlas yn rhan o'n prosiect ar Drychinebau Naturiol oedd Mr Huw Jones o asiantaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyflwyniad ar gynhesu byd eang oedd ganddo ac effeithiau hyn yn lleol. Diolch iddo am gytuno i ddod ac unwaith yn rhagor roedd ymateb y plant yn frwdfrydig.

**Dymuniadau gorau**
Hoffem ddymuno'r gorau i Mrs Fflur Roberts yn ei swydd newydd yn y flwyddyn newydd. Mae Mrs Roberts wedi bod yn dysgu yn nosbarth Ogwen am gyfnod ac rydym i gyd wedi mwynhau ei chwmni yn yr ysgol. Pob lwc i chi Mrs Roberts.

**Canlyniadau'r Eisteddfod**
Da iawn chi bawb a gymerodd rhan yn yr eisteddfod eleni. Braf yw cael llongyfarch Esther Parry o'r dosbarth derbyn a ddaeth yn ail am ganu a'r côr am ddod yn drydydd. Diolch yn fawr iawn i'r plant am eu gwaith caled ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant.

**Gala Nofio**
Hoffem ddiolch i'r plant a gymerodd rhan yn gala nofio'r Urdd. Da iawn bob un ohonoch chi am drio eich gorau glas ac am gynrychioli'r ysgol. Diolch yn fawr hefyd i bawb aeth yno i gefnogi'r plant.

**Ysgol y Goedwig**
Ar gyrion Castell Penrhyn mae ysgol go arbennig ynghanol y goedwig ac yno bu Dosbarth Ogwen ar ymweliad Nadoligaidd ei naws. Cawsom fore prysur yn gwneud addurniadau Nadolig gyda brigau'r coed a choginio teisennau cri Nadoligaidd a pwnsh afal sbeislyd ar y tân agored. Roedd y gweithgareddau yn annog y plant i gydweithio a gwerthfawrogi'r amgylchedd, sef prif nod yr Ysgol Goedwig. Roedd blas y cacennau yn 'well na rhai Mam' medd sawl un - am ein bod yn cael eu bwyta o bobtu'r tân mae'n siwr! Diolch i Resi a Tom am eu croeso cynnes ar fore oer!



**Arolwg Estyn**
Fe groesawodd Ysgol Tregarth arolygwyr Estyn atom ar gychwyn mis Tachwedd. Mae wedi bod yn adeg prysyr iawn i bawb yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i holl staff yr ysgol, y llywodraethwyr a'r plant am eu gwaith caled a hefyd diolch i'r rhieni am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

**Ymweliad Blwyddyn 2 i Gapel y Ffynnon**
Hoffai disgyblion blwyddyn 2 ddiolch o galon i swyddogion ac aelodau Capel y Ffynnon ym Mangor am eu gweithdy hynod ddiddorol a hwyliog yn ddiweddar. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu am Stori'r Nadolig a chreu llyfryn troellog. Bu'r disgyblion yn brysur yn actio yn nrama'r geni, yn trefnu'r stori ac yn canu nerth eu pennau! Cafodd pawb hwyl a sbri ac atgoffa ein gilydd o wir neges y Nadolig.

# Ysgol Llanllechid

**Cofion Cynnes**
Anfonwn ein cofion cynnes at Siôn Guto, un o`n cyn-ddisgyblion hoff, a dymunwn yn dda iddo i`r dyfodol – gobeithio na fydd rhaid aros yn rhy hir am y driniaeth.
Dymuniadau gorau i Nell Medi Hughes (dosbarth Meithrin). Mae Nell wedi cael triniaeth fawr yn yr ysbyty yn ddiweddar ac yn disgwyl am yr apwyntiad nesaf. Cofion gorau at Gwilym Williams, gŵr Anti Heather a gafodd ddamwain car. Cydymdeimlwn ā theulu Mrs Marian Jones yn eu profedigaeth o golli modryb.

**Ymweliad Bl 1 a 2 â Londis**
'Yr Archfarchnad' yw thema dosbarthiadau Mrs Rona Williams a Mrs Marian Jones ar hyn o bryd a chawsom ymweld â siop LONDIS, Bethesda. Cafwyd croeso gwych gan Mr J. Thomas a'r holl staff. Roedd y disgyblion wedi cael cyfle i greu holiaduron cyn mynd i`r siop a chafodd Mr Thomas gyfle i ateb cant o mil o gwestiynau diddorol! Diolch yn fawr i Mr Thomas a'r criw am roi danteithion a ffrwythau i bob un o'r disgyblion a diolch am y croeso cynnes!

**Bl 5 i'r Mynydd Gwefru**
Thema'r dosbarth yr hanner tymor hwn yw ynni, ac fel sbardun i'r gwaith aeth disgyblion blwyddyn 5 ar daith i Mynydd Gwefru Llanberis. Mae'r pwerdy hwn yn enghraifft arbennig o greu ynni adnewyddadwy, ac fe aeth y disgyblion, gan wisgo eu helmedau melyn, i grombil y mynydd i weld y chwe tyrbin. Roedd y disgyblion wedi eu cyfareddu gyda'r holl broses. Yn dilyn hyn, aethant ar daith gerdded i weld llyn Peris a chastell Dolbadarn a oedd yn sefyll yn urddasol uwchben y llyn, gwrthgyferbyniad llwyr i'r dechnoleg fodern sy'n cuddio tu mewn i'r mynydd, ond eto yn dal i sefyll!

**Blwyddyn 5 – Coleg Llandrillo**
Aeth y disgyblion i'r Ganolfan Ynni Adnewyddadwy sydd yng Ngholeg Llandrillo. Wrth edrych allan drwy'r ffenestr yn y coleg gellir gweld y fferm wynt sydd yn y môr gerllaw. Yn y coleg bu'r plant yn arbrofi gyda thrybinau gwynt ac yn ymchwilio i weld faint o lafnau oedd yn creu y mwyaf o ynni. Y brif wers oedd dysgu am y dulliau diweddaraf o greu ynni mewn modd adnewyddadwy.

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau i'r holl blant a fu'n cystadlu mor wych yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Roedd pawb mor falch o weld plant yr ysgol yn llwyddo ar y llwyfan, yn llenyddol ac yn yr Adran Gelf a Chrefft a chlorianwyd y cyfan ar ddiwedd y dydd gyda pherfformiad o'r safon uchaf gan gôr yr ysgol a threfniant Mr Huw E. Jones o`r 'Golomen Wen'. Diolch i bawb fu'n helpu gyda'r hyfforddi a'r paratoi a diolch arbennig i Mrs Helen Williams a Mrs Menai Williams am fod mor barod i helpu`r ysgol.

**Ymweliadau'r Dosbarth Derbyn**
Hoffai'r dosbarth Derbyn ddiolch o waelod calon am y croeso a gawsant yn Londis a Meddygfa'r Hen Orsaf. Bu`r dosbarth yn astudio`r bwydydd iach y mae Londis yn ei werthu ac yna yn dysgu am waith doctor, nyrs a deintydd yn y feddygfa. Mae plant dosbarth Mrs Wilson yn blant iach iawn! Ar y daith flynyddol i *Piggery Pottery* bu'r plant yn brysur yn peintio ac yn addurno`r moch. Roedd pawb wedi cael hwyl a sbri a phob mochyn yn edrych yn wahanol iawn i`w gilydd!

**Cae'r Groes**

Aeth llythyron pwysig iawn o Ysgol Llanllechid i Fecws Cae'r Groes. Roedd Blwyddyn 6 yn ddiolchgar iawn i'r perchnogion Mr a Mrs Williams am ganiatâd i ymweld ā'r safle ac i Mr Geraint Jones am yr addysg werthfawr iawn a gawsant am bobi ac am fentergarwch. Yn ogystal â chael gweld bara'n pobi ac yn crasu, cafwyd cyfle i ddysgu sut i dylino toes, i baratoi mins peis ac i ddilyn taith teisennau cri drwy'r becws. Cafodd pob disgybl deisen gri i ddod nôl i'r ysgol! Doedd dim amdani felly ond gwneud …menyn! Bu Bl 6 yn brysur yn corddi menyn i fwyta gyda'u teisennau cri. Roedd yn rhyfeddol o flasus, yn wir y deisen gri a'r menyn gorau a flasom erioed! Mae yn ein mysg bellach lawer o ddarpar entrepreneuriaid. Diolch am yr ysbrydoliaeth gan fecws llwyddiannus Rachub.

**Cofio'r Cymry**
Bu Mr Meurig Rees o Gôr Rygbi Gogledd Cymru yn ymweld ā ni i gyflwyno cefndir ei daith egnïol ar gefn beic i wlad Fflandrys er mwyn codi arian at gofeb o ddraig goch, i gofio'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Mawr. Cofiwn am y bardd Hedd Wyn, a fu farw yn Fflandrys, ac mae ei farddoniaeth yn parhau yn fyw ac yn atsain yn Ysgol Llanllechid hyd heddiw! Mae côr Ysgol Llanllechid wedi cael gwahoddiad i ganu gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru yn Llandudno cyn y Nadolig – cofiwch ddod i`n cefnogi! Tocynnau ar werth yn yr ysgol.

**Bore Coffi Nadolig**
Cynhaliwyd Bore Coffi Nadolig Ysgol Llanllechid yn y Clwb Criced, eto eleni. Roedd llu o stondinau, mins peis, anrhegion ac ymweliad arbennig gan Siôn Corn ei hun! Diolch i Mrs Lowri Roberts, Mrs Iona Robertson, aelodau`r pwyllgor a'r llu cyfeillion am eu cymorth a'u gwaith di-flino fel arfer.

**Plant Mewn Angen**
Roedd sbort a sbri yn yr ysgol unwaith eto eleni ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Roedd pawb wedi gwisgo dillad smotiog, pyjamas neu wisg ffansi i ddod i'r ysgol, a llwyddwyd i godi dros £300. Roedd yn hyfryd gweld y 'bysgwyr' yn codi cymaint o arian, [sef Cerys Elen, Mari, a Swyn] drwy ddiddori`r rhieni wrth y drws, yn ogystal â'r plant yn y gwasanaeth gyda'u gitarau swynol! Diolch yn fawr i bawb!

**Ymweliad y Dosbarth Meithrin â Chapel Carmel**
Cafodd plant y dosbarth Meithrin fynd am dro i Gapel Carmel, er mwyn iddynt gael gwrando ar stori`r Nadolig. Diolch i Mrs Williams unwaith eto am y croeso twymgalon ac am gerdded yr ail filltir i ni unwaith yn rhagor.

**Sioeau Nadolig**
Cynhelir pedwar cyngerdd Nadolig ac mae`r cyngerddau dosbarthiadau Meithrin a`r Derbyn eisoes wedi eu llwyfannu. Da iawn chi blant bach ar berfformiadau gwerth chweil o flaen neuadd orlawn a diolch i chi rieni a ffrindiau`r ysgol am eich cymorth yn creu`r gwisgoedd bendigedig!



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i`r holl ddarllenwyr oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid.**

# YSGOL Y CARNEDDI

Diolch yn fawr i Glenys Jones, Adwy'r Nant, am ddod â'r penillion isod i sylw'r Llais. Maen nhw'n sôn am hen Ysgol Carneddi a gaewyd ar ddyfodiad Ysgol Penybryn. A oes unrhyw un o ddarllenwyr y Llais yn cofio'r hen ysgol? Ac efallai'n cofio pwy `sgrifennodd y penillion? Rhowch wybod i'r golygydd.

**Ysgol y Carneddi**

Daw ton o hiraeth ambell dro
Wrth basio yr Hen Ysgol,
A rhai atgofion melys iawn
Atgofion o'r gorffennol.
Rwy'n cofio mynd yn blentyn bach
Yn llaw fy mam yn llencyn,
Fy nhrysor penna'r bore hwn
Oedd carreg nâdd a llechen.

Anghofiaf byth yr argraff ges
Wrth entro'r drws tro cyntaf.
A hanner cant o blant y fro
Yn syn yn syllu arnaf.
Mi synnais weld mewn lle mor brudd
Y plant i gyd yn llawen,
A minnau'n swil a dagrau fil
Yn disgyn ar fy llechen.

Ond deuthum innau'n fuan iawn
I fyny â'r direidi,
A ches hyfforddiant gwerth ei chael
Yn Ysgol y Carneddi.
Pwysleisiwyd arnom oll i fod
Yn lân mewn moes a chrefydd,
A gwae i'r sawl a feiddia fynd
Yn groes i'r hen Garmonydd.

Mae miloedd o'i disgyblion hi
Hyd heddiw yn ei moli,
A llawer mewn sefyllfa dda
Fu'n Ysgol y Carneddi.
Fe ddysgwyd ynddi lawer to
Sy'n addurn a chlod iddi,
A chlod yr Ysgolfeistri fu
Yn gwasanaethu ynddi.

Ond chwith yw gweld yr Ysgol hon
Heb swn y plant a'u miri,
A'r cenllysg oer yn curo'i tho,
A'r gwynt yn rhuo drosti.
Ei drws ynghau, a'i mur yn llwm,
A hithau'n brudd adfeilio,
Fel gweddw unig yn ei bro
A'r byd yn myned heibio.

Hen ysgol hoff, fe wnaeth ei rhan
Drwy wasanaethu'r cyhoedd,
Ac ni edliwiodd ddim erioed
I neb drwy'r holl flynyddoedd.
Os daeth yr Ysgol newydd sbon
I'r ardal i'w disodli,
Mi dynaf gap yn barchus iawn
I Ysgol y Carneddi.

# Chwaraeon Rygbi



**Un o blant y Dyffryn: Llŷr Temple Morris**

Hanner ffordd drwy'r tymor, ac mae Bethesda'n ail yn Adran 1 Gogledd ar ôl ennill 6 a cholli 3 gêm gynghrair.

Un o'r buddugoliaethau gorau a welwyd ar Ddôl Ddafydd ers blynyddoedd oedd pan drechwyd y pencampwyr presennol, Nant Conwy o 32 pwynt i 13. Sgoriodd Bethesda 4 cais cofiadwy'r prynhawn hwnnw.

Collwyd gemau i ffwrdd ym Mhwllheli a Chaernarfon ond enillwyd adra' yn erbyn Dinbych.

Chwaraewyd 2 gêm yn y gyfres o gemau Cwpan y Gogledd rhwng Nant Conwy, Bro Ffestiniog a Bethesda. Collwyd y cymal i ffwrdd yn Nant Conwy ond enillwyd i ffwrdd ym Mlaenau Ffestiniog. Bydd gan Fethesda 2 gêm gartref yn y gyfres i weld pwy fydd yn mynd drwodd i gemau cynderfynol y Cwpan a'r Plât.

Fel y soniwyd o'r blaen, gwaharddwyd maswr dylanwadol Bethesda, Mathew Parry, am 18 wythnos ac ni fydd yn cael chwarae tan ddiwedd mis Chwefror. Yn y cyfamser, camodd un o blant y dyffryn, Llŷr Temple Morris, i esgidiau Mathew fel ciciwr.

Daeth Llŷr yn ôl o Ganada am gyfnod a bu'n gaffaeliad mawr i'r garfan ar y cae chwarae ac oddi arno. Sgoriodd 4 cais, 6 trosiad ac 8 gôl gosb i sicrhau 56 o bwyntiau mewn 11 o gemau.

Yn anffodus i'r clwb, mae Llŷr wedi gadael am Seland Newydd erbyn hyn a bydd colled mawr ar ei ôl. Dymunwn y gorau iddo ar ei deithiau gan obeithio y gwelwn o'n ei ôl ar Ddôl Ddafydd rhyw ddydd.

## Y Tim Peldroed Peryclaf yn y Byd

Mae'n siwr bod y rhan fwyaf ohonoch wedi adnabod aelodau'r tim yn y llun o'r 70au a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd o'r Llais! Ond rhag ofn na chawsoch yr enwau i gyd, dyma nhw (o'r chwith):-



**Rhes gefn :** Now Parry (Llanfairpwll), Dafydd McCarter, Vivian Evans, Alun Jones (Barbar), Merville Owen a Gareth Jones.
**Rhes flaen :** Dafydd Gwilym Jones, Hywel Williams, Eifion Jones, Walter Williams a Stan Williams.




CRWYDRO ER BUDD

yn cyflwyno tair taith arbennig yn 2014

Ffrainc
**Ebrill 25 – 30, 2014**
Taith ramantus i weld Annecy, Geneva, Gorges de Fier yn yr Alpau, Chamonix, taith cable car i weld copa Mont Blanc. Rhewlif Mer de Glace, Llyn Bourget, a mwy.

Periw
**Mai 24 – Mehefin 4, 2014**
Lima, Cusco prif dref yr Inca. 'Y Dyffryn Sanctaidd', Llyn Titicaca. Machu Picchu. Ynysoedd yr 'Uros Indians'. Tyrau Collas a llawer o leoliadau eraill.

Gwlad yr Iâ
**Hydref 12–16, 2014**
Rhyfeddodau fel y Blue Lagoon, Goleuadau'r Gogledd (Aurora Borealis), Y Cylch Aur (Golden Circle) a thaith o gwmpas tref Reykjavic.

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu,
Cysylltwch â Dafydd Owen
01286 881911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
ebost : crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com




**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**alunffred.jones@cymru.gov.uk**



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**